

ECO'R WYDDFA

RHIF 5

GORFFENNAF 1976

Pris 8g.



Methodd ffotograffydd Eco'r Wyddfa yn llwyr â chael Iwan Griffith i wenu ar gyfer y llun pwysig hwn. Gormod o bwysau ar ei ysgwydd efallai wrth hysbysebu Eco'r Wyddfa. Yn rhyfedd iawn nid yw'r golygydd yn rhy hoff o wenu chwaith!

STORI'R STREIC

— DRAENOG YN DINORWIG

Dychwelodd tua 80 o grefftwyr a gyflogir ar gynllun hydro-electrig Dinorwig i'w gwaith ar y 24ain o Fehefin ar ôl bod ar streic am bum wythnos. Sefyll wnaethant dros hawl sylfaenol gweithwyr i gydnabyddiaeth effeithiol i'w hundebau llafur.

Mewn unrhyw anghydfod rhwng llafur a chyfalaf caiff diddordebau cyfalaf eu cyflwyno'n dra effeithiol yn y wasg fasnachol a'r teledwyr. Diddordeb Draenog yw cyflwyno ochr llafur; yn yr achos hwn, safbwynt yr hogia' lleol fu ar streic.

ASGWRN Y GYNNEN

Y ddau undeb mwyaf ar safle Dinorwig yw TGWU ac UCATT. Arwyddwyd cytundeb a elwir yn WRA (Working Rules Agreement) rhwng prif contractwyr y safle, sef, MBZ (McAlpine ac eraill) a'r TGWU ac UCATT sy'n rhoi hawliau trafod llawn i'r ddau undeb yma.

Asgwrn y gynnen oedd bod MBZ yn gwrthod unrhyw gyd-nabyddiaeth effeithiol i ddau undeb crefft ar y safle, sef yr AUEW (sy'n cynrychioli ffitwyr) ac Undeb y Boilerwyr (sy'n cynrychioli'r weldwyr). Gofyn yr oedd aelodau'r ddau undeb crefft am yr hawl i'w swyddogion eu cynrychioli drwy fod yn bresennol yn y trafodaethau

rhwng MBZ a'r ddau undeb arall pan ystyrir lles aelodau'r AUEW a'r Boilerwyr. Gwrthodai MBZ yr hawl sylfaenol hon.

GWRAIDD YR ANGHYDFOD

Toc wedi i MBZ ddechrau yn Ninorwig cododd anghytundeb rhyngddynt a'r 'meinars' ynglŷn â thaliadau bonws. Cafodd y 'meinars', sy'n aelodau o'r TGWU, gefnogaeth holl weithwyr y safle i'w safiad gan gynnwys aelodau'r AUEW a'r Boilerwyr. Cytunwyd ar daliadau bonws y 'meinars' mewn byr amser.

Ni chafodd cynrychiolwyr yr AUEW a'r Boilerwyr unrhyw lais effeithiol yn y trafodaethau ar daliadau bonws y gweithwyr yn Ninorwig. Trwy gydol y trafodaethau gohiriwyd trefnu bonws i grefftwyr yr AUEW. 'Roedd un eithriad arwyddocaol, yn ôl

Parhad ar dud 2

O LANBÊR I BEN YR WYDDFA —AC YN ÔL

Mae trefnyddion Wythnos Garnifal Llanberis am weld cystadleuwyr yn herio'r Wyddfa ei hun eleni. Fel rhan o weithgarwch yr wythnos, maent am gynnal ras o Lanberis i ben yr Wyddfa — ac yn ôl! Y diwrnod fydd dydd Sadwrn, Gorffennaf 17eg, sef diwrnod y Carnifal. Yr amser — 1 o'r gloch. Y man cychwyn fydd Stryd Goodman, a'r man diwedd — Maes y Carnifal.

Ceir manylion a ffurflen gais gan Mr. Ken Jones, 10 Glanrafon Nant Peris, a gofynnir i'r cystadleuwyr eu dychwelyd iddo cyn Gorffennaf 10fed. Disgwylir i bob cystadleuwr fod yn weddol profiadol. O la, bydd yn rhaid i'r cystadleuwyr dalu £1 am gynnig (25c i blant, a'u ras nhw at hanner y ffordd). Wel, mae o'n rhatach na'r trên yntyd? Cofiwch yr hen bennill:

Hawdd yw dwedyd dacw'r Wyddfa
Nid eir trosti ond yn araf

Ys gwn i faint o amser gymeran nhw? Cewch chi'r cyfle i ddyfalu mewn tôt sy'n cael ei drefnu.


DOSBARTHIADAU

Mae SAITH dosbarth yn y gystadleuaeth:

- (1) Dynion dros 18 ac o dan 40
- (2) Merched dros 18
- (3) Plant. Bechgyn o 14 i 17
- (4) Genethod o 15 i 17
- (5) Dynion Hŷn — dros 40
- (6) Plant iau. Bechgyn o dan 14
- (7) Plant iau. Genethod dan 15

GWOBROWYON

Mae yna 2 Darian Her i enillwyr y dosbarth cyntaf a'r seithfed. Mae'r gyntaf yn gyflwynedig gan Mr. Joe Brown, a'r ail gan Mr. Briggs, Penygwryd. Mae yna gwpan her i'r cystadleuwyr lleol cyntaf (cylich Arfon) yn gyflwynedig gan Mr. Bob Jones. Mae Lein yr Wyddfa'n rhoi tystysgrif i bawb sy'n cwblhau'r cwrs ac hefyd cwpan arbennig i'r cystadleuwr cyntaf i gyrraedd y copa. Cyflwynir gwobrowyon o lechfaen i'r tri cyntaf ymhob dosbarth a chyflwynir gwobrau addas i ddosbarthiadau 7 ac 8. Cyflwynir y gwobrowyon hyn gan y canlynol gwesty Victoria Clogwyn Climbing Gear; Snowdon Mouldings; MBZ; Gwesty Pen yr Wyddfa a Phwyllgor y Carnifal. Mae gwobr arbennig i'r rhedwr lleol i'w chadw gan Bwyllgor y Carnifal.



Cerddodd Mr. Cliff Foxwell, aelod o Frigâd Dân Essex, yr holl ffordd o Fasildon yn Essex i gopa'r Wyddfa er codi £10,000 i Fudiad Gwirfoddol Haelionus y Gwasanaeth Tân.

Cymerodd y rhodiad o 300 milltir ddeg diwrnod i'w gyflawni a chynorthwywyd ef gan ddau o dân-ddiffoddwyr eraill o Essex.

Pan gyrhaeddodd Orsaf Dân Llanberis, croesawyd ef yn wresog gan aelodau o Wasanaeth Tân Gwynedd, ac anrhegwyd ef â charreg wedi ei chymeryd o gopa'r

300 MILLTIR I GEISIO CODI £10,000

Paratowyd gwledd i Cliff ar ei ddychweliad o'r Wyddfa gan Mrs Gareth Jones a Mrs. Gwilym Roberts, gwragedd Swyddogion Gorsaf Dan Llanberis.

Wyddfa a'i dodi ar 'blinth' pren a wnaed yn gywain gan y cyn-dân-ddiffoddwr Jack Greenman o Llandudno.

Trosglwyddwyd yr anrheg i Mr. Foxwell gan y Cyng. O.G. Roberts Y.H., Cadeirydd Pwyllgor Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Gwynedd. Cymeradwyodd y Cynghorydd Trevor Wyn Williams D.F.C., Llanberis, yntau yn aelod o Bwyllgor Gwarchod y Cyhoedd, Mr. Foxwell ar ei ymdrech fuddugoliaethus, ardderchog ar ran Mudiad Gwirfoddol Haelionus y Gwasanaethau Tân.

ECO'R WYDDFA

RHIF 5 GORFFENNAF 1976

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

O dud 1

a ddealla Draenog, pan aeth MBZ tu cefn i'r cynrychiolwyr swyddogol a chynnig telerau dim ond ar gyfer rhai o'r ffitwyr, sef rhai sy'n gweithio yn y twnel. Derbyniwyd y cynnig gan ffitwyr y twnel heb ymgynghori â'r cynrychiolydd swyddogol; 'roeddynt wedi syrthio am yr hen dric o reoli gweithwyr drwy eu rhannu. Mae'n arwyddocaol nad yw'r mwyafrif o ffitwyr y twnel yn aelodau o'r AUEW; nid crefftwyr wedi bwrw prentisiaeth lawn ydynt.

BYGWTH Y SAC

'Roedd hi'n amlwg bod ffitwyr yr AUEW a weldwyr Undeb y Boilerwyr dan sawl anfantais. Cafwyd cytundebau bonws ar gyfer y gweithwyr i gyd ag eithrio'r crefftwyr hyn. Gwrthododd MBZ hyd yn oed lais effeithiol iddynt ar y pwyllgorau diogelwch er ei bod hi'n amlwg mai crefftwyr a fwriodd brentisiaeth lawn sy'n gwybod orau pa fesurau diogelwch sy'n angenrheidiol.

Gwrthodwyd ceisiadau ffitwyr yr AUEW am swyddi. Un tro pan geisiodd rhai ohonynt am waith gydag un o griwiau'r twnel cawsant bymtheng munud i ail ystyried neu fe gaent nôl eu cardiau.

Dywedir bod MBZ yn cyflogi aelodau di-grefft y TGWU fel met-ffitwyr, eu hyfforddi am wythnos, yna eu dyrchafu'n ffitwyr ac felly arbed cyflogi crefftwyr go iawn yr AUEW.

STREIC SWYDDOGOL

Gan fod sefyllfa'r crefftwyr hyn mor anfodddhaol gwnaed cais am gynrychiolaeth effeithiol i'w hundebau.

Cefnogwyd eu cais gan Mr. Idwal Edwards sy'n swyddog lleol y TGWU. LLuniwyd fformiwlâ ganddo a fyddai'n ateb gofynion y crefftwyr. Cytunodd y pedwar undeb i gefnogi'r fformiwlâ.

Gwrthododd MBZ y fformiwlâ. Nid oedd gan aelodau'r undebau crefft ddewis ond atal eu llafur. Cydnabyddwyd achos y crefftwyr gan yr AUEW; felly, 'roedd yn streic swyddogol. Trefnwyd piced tu allan i'r safle i berswadio gyrrwyr lorïau i beidio â chario defnyddiau i'r safle.

TRAFOD ETO

Mewn cyfarfod pellach o'r streicwyr a swyddogion y gwahanol undebau cynrychiolwyd y TGWU gan Mr. Cooke gan fod Idwal Edwards yn wael ar y pryd. Cytunodd Cooke a Mr. Press ar ran UCATT i godi achos y crefftwyr gyda

YMATEB I'R GANOLFAN

Y Dalar Deg, Llanrug.

Annwyl Syr,

Ymddengys i mi fod yr holl syniad o ganolfan wedi ei lleoli yn Llanberis wedi ei goginio'n barod cyn iddo gael ei ollwng o'r cwd. Ond chwarae teg, nid oes monopoli i Lanberis o helynt a thrafferthion yn codi o achos y cyffro sy'n deillio o'r Cynllun Trydan Dŵr. Mae pentrefi cyfagos fel Llanrug, Cwm-y-glo, Brynrefail, Penisarwaun a Deiniolen yn gorfod dioddef y drafndiaeth drom, y llwch a'r llanast sydd eto i ddod. Os yw'r Ganolfan yn rhyw fath o iawn am yr aflonyddwch, y ffordd briodol ydyw ei rannu rhwng y pentrefi neu ei roi fel cyfraniad tuag at y Ganolfan Chwaraeon arfaethiedig yng nghylch Caernarfon. Nid wyf am rwystro Llanbêr gael unrhyw fendith o'r cyffro ond y mae'n bentref eisoes â dwy reilffordd fach, canolfan cymdeithasol, llyfrgell, canolfan iechyd ac fe fydd yr

MBZ eto ond ni chafwyd unrhyw lwyddiant eto.

BRADYCHU'R ACHOS

Pwysodd y streicwyr ar i Cooke a Press godi'r mater unwaith eto hefo'r rheolwyr. Er mawr syndod ni welodd Press ei ffordd yn glir i fynd. Hwyrach nad oedd bellach yn cefnogi fformiwlâ a gefnogai'n gynharach!

Wedi i Cooke fynd ar ei ben ei hun i weld MBZ ar ran y crefftwyr dywedodd yn ei adroddiad i'r streicwyr bod MBZ yn plygu a bod ganddo ddogfen addawol i law. Wedi cryn drafferth cafwyd copi o'r ddogfen. O'i hastudio buan y daeth y streicwyr i'r farn mai ymgais oedd hyn i daflu llwch i'w llygaid. Penderfynodd y streicwyr barhau'r streic.

Y CYFARFOD YN Y VIC

Galwyd am ymyrraeth gwasanaeth y llywodraeth ar gyfer ceisio datrys anghydfod diwydiannol, sef ACAS (Advisory, Conciliation and Arbitration Service). Yn ymchwiliad ACAS gwrthododd MBZ hyd yn oed gyfarfod swyddogion yr undebau crefft. Fe'u cadwyd ynghyd â chynrychiolaeth o'r streicwyr mewn ystafell o'r neilltu trwy gydol yr ymchwiliad.

Teimlai'r streicwyr bod swyddogion TGWU (ag eithrio Idwal Edwards) ac UCATT wedi bradychu eu hachos yn yr ymchwiliad aflwyddiannus ac hefyd, wedyn, drwy gyfarwyddo undebwyr llafur i groesi piced swyddogol a godwyd gan undeb arall.

GALW'R HEDDLU

Cafodd y picedwyr ergyd ychwanegol pan ymddangosodd yr heddlu i gadw llygad arnynt er na fu unrhyw awgrym o dorheddwch drwy gydol y piced. Diddorol fuasai gwybod pwy

Parhad ar dud 7

LLYTHYRAU

orsaf drydan ei hun yn atyniad pellach. Ni wn yn iawn beth yw ystyr Parc Gwledig ond y mae hwnnw hefyd i fod yn Llanberis.

Chwarae teg i'r pentrefi cyfagos nad oes ganddynt Neuadd gyhoeddus, canolfan iechyd, llyfrgell, cae chwaraeon graenus na phwll nofio. Credaf fod gwaith Dr. Pritchard ar warchodaeth natur yn bwysig ond mae gwarchod y gymdeithas leol yn bwysicach.

Yn gywir,

W.A.Jones.

Regent House, Deiniolen.

Os yw'r B.C.C.T. yn dewis talu am yr holl drafferth a'r llanast sydd wedi cael ei wneud yn yr ardaloedd yma, fy marn i a llawer o drigolion y pentref a Dinorwig yw y dylent RANNU'R arian. Y mae yna swm o £500,000 wedi cael ei grybwyll rhwng y pentrefi cyfagos, ac i'r arian gael ei ddefnyddio fel y buasai'r pentrefwyr yn dewis ei ddefnyddio. Os fell y mae wedi ei grybwyll fel Canolfan yng ngwir ystyr y gair y dylai fod mewn lle fel Llanrug er enghraifft. Buasai'r lle yma'n fwy canolog. Y mae lle fel Llanberis yn lle anodd iawn i fynd yno o'r ddau bentref yma. Nid oes gan bawb fodur a beth am y plant? Buasai hyn yn golygu iddynt drafaelio hefo bws i Llanrug a disgwyl am fws i Lanberis a gorfod disgwyl efallai am tua awr ar wahan i'r gost. Yna yr un drefn ar y ffordd yn ôl. Mae yn edrych yn debyg iawn y bydd cwtogi ar y drafndiaeth gyhoeddus yn y dyfodol. Mae gan Lanberis ei atyniadau yn barod, sef yr Wyddfa a'r Amgueddfa yng Nglan Bala a thrên bach Llyn Padarn. Os ydyw yn rhaid i Fwrdd Cynhyrchu Trydan Dinorwig gael y Ganolfan yn ymyl eu gorsaf, yr ydwyf yn awgrymu iddynt ei adeiladu yn Ninorwig. Nid yw'r syniad yma'n rhy fympwyol gobeithio? Buasai'r ymwelwyr yn cael y fantais o weld yr olygfa hardd sydd i'w gweld o'r lle yma ar wahan i atyniad y Ganolfan. Un peth arall sy'n fy synnu i

ydi sut y mae'r peth wedi'i gadw mor ddistaw ac i feddwl fod y peth wedi cael ei drafod tua thair blynedd yn ôl? Tybed a oes gan y Bwrdd Trydan ychwaneg o gardiau i fyny eu llawes?

Yn gywir,

Jacob James

Meirionfa, Llanberis.

Carwn awgrymu i'r BCCT nad oes unrhyw gysondeb mewn codi adeilad newydd yn yr ardal ar gyfer adloniant heb yn gyntaf gael yr holl drigolion ynghyd i drafod y broblem.

Cred llawer o'r pentrefwyr erbyn hyn nad oes angen yr holl gapeli arnom. Maent yn drwm i'w rhedeg ac yn golygu gwaith diangenrhaid ar lawer ystyr. Hefyd, gwelir Ysgol Brynrefail yn wag ac ar werth, mae yma ddigon o adeiladau'n barod heb godi un arall!

Daw rhyw lwmp i'n gyddfau wrth gwrs wrth feddwl am y llefydd annwyl yma yn pydru a dadfeilio yn y dyfodol agos gan na fyddant yn rhesymol angenrheidiol mwyach yn ein plith. Adeiladwyd hwy oll gan ein hynafiaid er lles i'n cymdeithas mewn cyfnod o galedi mawr, oni charent hwy eu gweld yn cael eu defnyddio o hyd er lles i bobl yr ardal? Onid peth da iawn fyddai diogelu ein pobl ifanc rhag syrthio i'r aml bydewau sydd mor barod i'w swyno ar bobtu — trwy agor ein drysau bob nos iddynt?

Gresyn na fuasai'r BCCT yn ein cynorthwyo i wireddu rhai o'n breuddwydion? Onid gwyh fuasai gweld rhai o'n capeli yn mynwesu'n hieuencid mewn clwb sobr, neuadd chwarae ac adloniant glân ymysg ei gilydd. Pe gwelid pwll nofio yn Ysgol Brynrefail buasai holl blant yr ardaloedd o gwmpas yn gallu arbed siwrnai i Fangor i ddysgu nofio.

Gallasai'r BCCT fforddio i gadw arolygydd llawn-amser a gofalwr i edrych ar ôl y canolfannau yma gyda'r holl arian y bwriadwyd ei wario i godi Oriel newydd sbon.


Dyma gyfle gwych i geisio cael help i gario 'mlaen bwrpas daionus ein cyndadau ynglŷn â'r adeiladau hyn, dal i wneud daioni ymarferol oddi mewn iddynt.

Yn gywir,

Dilys Baylis

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Arvonias Coaches
LLANRUG

FFÔN WAUNFAWR 254

DEINIOLEN



Y Parch a Mrs. H. Stanley Williams

CYFARFOD FFARWELIO

Nos Iau, Mehefin 18, yng Nghapel Disgwylfa dan lywyddiaeth Mr. Eifion Williams, cynhaliwyd cyfarfod gollwng y Parch Stanley H. Williams. Cymerwyd y rhannau defosiynol gan y Parch. John Owen, Llanberis, a chyfarwyd y Parchedig a Mrs. S.H. Williams yn annwyl a diffuant gan gynrychiolwyr o eglwysi ei ofalaeth, a chan gynrychiolwyr o holl eglwysi'r fro.

Cyflwynwyd tysteb anrhydeddus i'r gweinidog oddi wrth aelodau Eglwys Disgwylfa a'r pentrefwyr gan Mrs. E. Ellis Jones a thysteb arall i Mrs. Williams oddi wrth aelodau Ysgol Sul Disgwylfa gan Miss Kathleen Jones, ac ar ran Mudiad y Chwirydd Disgwylfa cyflwynodd Mrs. H. Rees Owen droli de, hambwrdd arian, dysgl siwgr a jwg llefrith i Mrs. Williams.

Gwerthfawrogwyd gan Mr. Williams a'i briod y mynegiadau ymarferol hyn o'u cyfraniad i fywyd y pentref gan dystio y byddent yn dwyn gyda hwynt i'w dewis fro yn Cesarea atgofion melys am ardal Deiniolen.

Yn dilyn y cyfarchion 'roedd seremoni'r cyfarfod gollwng yng ngofal y Parchedigion W.J. Thomas ac O.M. Lloyd, llywydd ac ysgrifennydd Henaduriaeth Arfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Lun, 1af o Fehefin, cafwyd sgwrs ac atgofion gan Mr. W.M. Hughes, Rhiwen. Y llywydd oedd Mrs. M.A. Thomas. Yn y cyfarfod soniodd Mr. Hughes am gyfnewidiadau a fu yn Neiniolen, yn ein gwlad a thrwy'r byd. 'Roedd yn siarad o brofiad helaeth — yn un o fechgyn Llu Awyr y Royal Flying Corps. Diolchwyd iddo gan Miss Priscie Roberts. Y westwraig oedd Mrs. Eirlys Williams, Pentre Helen, ac enillwyd y raffl gan Mrs. Lewis, Tai Marion.

Nos Wener, Mehefin 11eg, aeth yr aelodau ar daith ddirgel. Diweddodd y daith yn Nhŷ Mawr, Sir Fôn, lle cafwyd cyw iâr a sgloodion mewn basged. Yno cafwyd adloniant gan Gôr y Traeth. Diolchwyd gan Mrs. Marian Williams, Ffordd Deiniol, a llongyfarchwyd yr ysgrifenyddes Mrs. Neville Williams ar drefnu noson mor dda.

CYDNABOD

Dymuna Mrs. Edith Wyn Parry, 19 Pentre Helen, gydnabod yn gynnes pob cymwynas a char-edigrwyd a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd diweddar.

CYNGOR EGLWYSI

Nos Lun, Mehefin 14, yng Nghapel Maesyddref cynhaliwyd Cwrdd Gweddi olaf y tymor dan nawdd y Cyngor. Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchedig George Brewer, Tabernacl, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau Eglwys Maesyddref.

Ar derfyn yr oedfa neilltuwyd amser i gydnabod cymwynasau aneirif y Parch. Stanley H. Williams i eglwysi'r pentref. Gwerthfawrogwyd ei gyfraniad gloyw i'r fro gan nifer o siaradwyr, a chyflwynwyd rhodd iddo ar ran y Cyngor gan Mr. Robert Williams, Libanus. Ategwyd teimladau cynnes y siaradwyr gan y llywydd, gan ddymunio'n dda i Mr. Williams a'i briod wrth ymadael i'w cynefin yn Cesarea. Cydnabu'r Parch. S.H. Williams y dymuniadau da a fynegwyd mewn geiriau dethol.

EGLWYS DISGWYLFA

Dydd Sul, Mehefin 20fed, 1976 cafwyd oedfaon bendithiol iawn yn Eglwys Disgwylfa, y Sul olaf i'r Parch. Stanley H. Williams fod yn bresennol fel gweinidog yr eglwys. Yn oedfa'r bore gweinvddwyd y sacrament o Swper yr

Arglwydd gan y gweinidog a derbyniwyd o had yr eglwys saith o gymunwyr ifanc. Yn oedfa'r pnawn cafwyd gwerthfawrogiad o wasanaeth y Parch a Mrs. Williams am 13 o flynyddoedd. Arweiniwyd gan Mr. Brython Jones a chymerwyd y rhan agoriadol gan Berwyn Jones, Gareth Grindley, Joan Grindley, Ivonne Burslem, Ieuan Morris a Medwyn Williams. Yna cafwyd eitemau gan blant lleiaf yr eglwys a phedair chwaer, Eileen Williams, Meira Roberts, Perri Evans a Nan Williams. Y mae ein diolch yn ddyledus iawn i Mr. Meirion Jones a Mrs. Rees Owen am hyfforddi'r plant.

Yn oedfa'r hwyr 'roedd y BBC yn bresennol i recordio pregeth olaf y Parch Stanley H. Williams fel gweinidog yr eglwys. Llongyfarchwn ef ar bregeth mor fendithiol. Y cyfeilydd oedd Mr. Emyr Pritchard, arweinwyr y gan — Mr. Evie Williams, Meirion Jones a Brython Jones. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarlledu ar Orffennaf 18fed, 1976 yn Oedfa'r Bore.

MERCHED Y WAWR

Nos Lun, Mehefin 21, bydd cyfarfod blynyddol y gangen leol yn Ysgol Gwaun Gynfi. Cafwyd adroddiadau gan y llywydd Miss Priscie Roberts o'r Cyngor Cenedlaethol a fu yn Aberystwyth, a'r Ysgol Undydd a fu ym Mangor. Cynrychiolwyr y gangen yn y cyfarfodydd oedd Miss Priscie Roberts, Mrs. E. Williams, Ty Capel Ebeneser, Mrs. Mair Morris, Rhydfadog, Mrs. K. Jones, Swn-yr-Afon, a'r Ysgrifennydd, Miss Nansi Owen, Rhydfadog. Yn y cyfarfod dewiswyd pwyllgor a swyddogion am 1976/77. Llywydd-Mrs. M. Cynfi Griffith. Is-lywydd-Mrs. Helen Sutherland. Ysgrifennydd-Miss Nansi Owen. Is-ysgrifennydd-Mrs. Beryl Hughes. Trysorydd-Mrs. Marian W. Williams. Dosbarthwr Y Wawr-Mrs. Helen Roberts. Gohebydd-Mrs. Gwladys Evans. Trefnydd gwesteion-Mrs. Gwladys Jones a Mrs. Margaret Thomas. Trefnydd teithiau-Mrs. Valmai Jones a Mrs. Mair G. Jones, gyda phwyllgor yn cynnwys hefyd Miss Elinor Jones, Mrs. Eirlys Williams, Mrs. Dilys Hughes, Mrs. Mair Morris, Mrs. B. May Williams.

Rhoddwyd y te nos Lun gan Mrs. L. Morris, Rhiwen, Mrs. H. Roberts, Chester House, Mrs. G. Williams a Mrs. J. Catherine Hughes, Pentre Helen.

Aeth gwobr y raffl i Mrs. G. Jones, Ty Capel Libanus.

CYDYMDEIMLAD

Gyda gofid y cofnodwn farwolaeth Mr. Robert Lloyd Jones, 5 Tai Cynfi, ar Fehefin 24 yn 76 mlwydd oed. Gellid ysgrifennu llawer am ei gyfraniad i'w gyd-ddyn; crynhown y cyfan trwy'i gofio fel gŵr ffraeth, Cymwynaswr, Bedyddiwr, Undebwr, Chwarelwr, Cynghorwr. Bydd y pentref yn dlotach o'i golli.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Gwyn, unig fab Mr. a Mrs. Tommy Parry, Bro Dawel, Ffordd Deiniol, ar ennill gradd B.A. (Anrhydedd) mewn

Efrydiau Beiblaidd a Chymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Bydd Gwyn yn dechrau ar gwrs ymarfer dysgu yn y Brifysgol ym mis Hydref.

EISTEDDFOD DINORWIG 1906-7

Bydd darllenwyr yr Eco'n cofio'r hanesion am Eisteddfod Dinorwig yn rhifynnau cyntaf yr Eco. Y gŵr a enillodd fedal arian yr Eisteddfod yng nghystadlaeth y Gân Werin oedd y diweddar Robert Huw Williams, oedd yn byw ar y pryd yn 9 Tai Marian. Bu R.H., fel y'i gelwid, yn amlwg am flynyddoedd ym myd Caniadaeth y Cysegr ar Lannau Mersi a chylch Llanrug. Yn anffodus collwyd y fedal mewn cyrch awyr Almaenig ar ddinas Lerpwl yn ystod yr ail ryfel byd, ond erys atgofion melys dyddiau mynych lwyddiant eisteddfodol ei phriod yng nghof ystwyth ei weddw, Mrs. Jane Williams, 13 Tai Marian, a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 92 mlwydd oed ar Orffennaf 24ain. Llongyfarchion Mrs. Williams.

PLAID CYMRU

Dydd Sadwrn, Mehefin 19, trefnwyd Taith Ddirgel lwyddiannus gan Mr. Gwyndaf Roberts a Mr. Meirion Jones.

WYTHNOS GARNIFAL SEINDORF ARIAN DEINIOLEN Gorff 4 — 10

Nos Sul: Cymanfa Ganu yn Festri Ebenezer am 8 o'r gloch. Arweinydd: Richard Morris. Yr elw at Glwb yr Henoed.

Nos Lun: Gêm Bêl Droed ar Gae Garnedd—Merched yn erbyn Dynion am 7.15.

Nos Fawrth: Disco yn ysgol Dinorwig am 7.30. Yr elw rhwng y 'Girl Guides' a'r 'Brownies'. Grŵp lleol "YR EXIT".

Nos Fercher: Cyngerdd yng Nghapel Disgwylfa am 7.30 Plant Ysgol Gwaun Gynfi, Band Bach, Ann Harries Roberts, Myrddin a Rosalind. Arweinydd: Arwel Jones.

Nos Iau: Mabolgampau yng Nghae Garnedd 6.30.

Nos Wener: Noson Goffi yn Ystafell y Seindorf am 7.00. Yr elw at y Clwb Ieuenctid a'r Tim Pel Droed.

Sadwrn: Diwrnod y Carnifal. Yr orymdaith i gychwyn o'r Llyfrgell am 1.30.

Cawn ein diddanu ar y cae gan dîm gymnasteg Ysgol Brynrefail a ddaeth yn 3ydd yn Eisteddfod yr Urdd eleni. I agor y Carnifal am 2.00; Y Parch. Berw Hughes.

Nos Sadwrn: Cinio'r Carnifal yn Woodlands Hall, Edern.

LLANBERIS

ETHOL BLAENORIAID

Etholwyd y pump canlynol i fod yn flaenoriaid eglwys Gorffwysfa: Mrs. Dilys Baylis, Mr. William Jones, Mr. T. Elwyn Morris, Mr. Alwyn Owen a Mr. Idwal L. Roberts. Bydd y cyfeillion a fydd yn derbyn y swydd yn cael eu hordinio mewn cyfarfod arbennig o'r Henaduriaeth yn Nhalysarn, nos Fawrth, 6ed Gorffennaf an 7 o'r gloch.

GWERTHFAWROGI GWASANAETH

Anrhegwyd Mrs. Dinah Jones, 32 Stryd Newton yn ddiweddar gan ei chyd-aelodau yn Eglwys Preswylfa. Rhoddwyd iddi gloc hardd a swm o arian gan yr Eglwys fel arwydd o'i gwerthfawrogiad o wasanaeth diflino Mrs. Jones fel gofawlwr y capel am ugain mlynedd. Cyflwynwyd y rhoddion ar ran yr eglwys gan Ysgrifennydd Pwyllgor y Capel, Mr. Idwal Roberts, a'r gweinidog.

CYFLWYNO TARIAN

Cyflwynwyd tarian o waith llechen i Aelwyd Cwm Afan gan Aelwyd Llanberis i gofio'r gêm fu rhyngddynt yn rownd derfynol Cwpan Pantyfedwen ym mis Mai. Rhoddwyd y darian i arweinydd Cwm Afan yn 'Steddod y Borth'. 'Roedd wedi gwirioni efo'r darian ddeniadol. Cyflwynwyd swm sylweddol o arian hefyd gan yr Aelwyd i sicrhau tariannau i aelodau'r tîm pêl-droed.

RICHARD BLEDDYN JONES

'Roedd colli Richard Bleddyn Jones yn 55oed yn golled fawr i Eglwys Gorffwysfa. Collodd ei phedwerydd blaenor o fewn blwyddyn. 'Roedd ei golli yn gadael bwloch ar y Cyngor Eglwys gan mai ef oedd Llywydd y Cyngor a Threfnydd Cymorth Cristnogol yn y cylch, ond y mae'r golled fwyaf i'w themlo ar aelwyd Snowdon Temperance lle collodd Mrs. Jones briod hoff, a Pheter, dad caredig.

MWYNDER MALDWYN

Dyna hanes 70 o aelodau eglwys Llanberis ar Sadwrn, Mehefin 12 ar eu pererindod i Ddolwar Fach, cartref Ann Griffiths, ym mlwyddyn dathlu daucanmlwyddiant ei geni. Ymwelwyd hefyd â hen gapel John Hughes, Pont-robert gyda'r twll yn y wal rhwng y capel a'r Tŷ Capel lle trigodd J.H. am flynyddoedd. Yn ei lesgedd, gyda chymorth y twll, gallai ddilyn yr oedfaon yn y capel. Canwyd emyn o waith J.H. yn y capel. Lediwyd yr emyn gan Menai Hughes. Aed i Gapel Coffa a godwyd i A.G. yn Nolanog a chynhaliwyd gwasanaeth byr yno. Canwyd un o'i hemynau gyda Mrs. B. Rees Evans wrth yr organ. John Davies oedd yn arwain. Darllenwyd rhan o'r Ysgrifthur gan Carys Jones. Aed i weld y garreg goffa a godwyd ar fedd A.G. ym mynwent Llanfihangel yng Ngwynfa, ac aed i mewn i'r eglwys i weld ei llawysgrifen ar y cofrestr priodasau. Bu'r tywydd yn ffafriol a gwelwyd Maldwyn ar ei gorau. Sylwyd nad oedd y criw hwyliog mor uchel ei gloch wrth fynd dros y Berwyn! Y golygfeydd llesmeir-

iol ac nid y dyfnderoedd islaw'r ffordd oedd yn gyfrifol am hynny mae'n siwr. Trefnwyd y bws a'r bwyd gwyh a gaed yng Nghroesowallt gan Ysgrifennydd y Cyngor Eglwys, J.S. Thomas, a chafodd gymorth Mr. John Davies gyda'r ochr ariannol. Dyblygwyd rhaglen i bawb i gofio'r achlysur gan Gwynfor Williams. 'Roedd y bererindod yng ngofal John Owen

CYDYMDEIMLAD

Mae ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs. Myfi Thomas a'i merch Margaret ar golli gŵr annwyl a thad hoffus — Mr. Owen Thomas, 2 Brynteg.

LLONGYFARCH NYRS

Llwyddodd Nyrs Helen Davies, 7 Rhes y Graig Uchaf i ennill y cymhwyster S.E.N. yn Ysbyty Gobaowen yn ddiweddar. Gobeithia'n awr ennill Tystysgrif Orthopodig yn yr un ysbyty.

WESLEAID YN DRINGO!

Aeth dros hanner cant o bobl ifainc (ac ychydig o rai dipyn bach hŷn) ar daith gerdded o Lanberis i gopa'r Wyddfa ac yn ôl ddydd Llun Gŵyl y Banc (Mai 31) Trefnwyd y daith gan Bwyllgor Addysg ac Ieuenctid Cylchdaith Arfon yr Eglwys Fethodistaidd (Wesleiaidd), a daeth y cerddwyr o nifer o leoedd ar y gylchdaith — Llanberis, Caernarfon, Llandwrog, Hirael, Tregarth, Bethesda, Llanllechid a Llanfairfechan.

Trefnwyd teithiau cyffelyb yn ystod y blynyddoedd diwethaf i godi arian at wahanol achosion da, ond eleni bu mwy yn cerdded nag erioed o'r blaen. Bydd yr elw eleni yn cael ei rannu rhwng tri achos da. Un yw cynllun "Codi Pontydd" — cynllun a drefnir ar y cyd rhwng Adran Ieuenctid ac Adran Dramor yr Eglwys Fethodistaidd i "bontio'r gagendor" rhwng tldi a chyfoeth, rhwng du a gwyn, rhwng Catholic a Phrot-estant ac yn y blaen mewn nifer o wledydd. Y ddau achos arall yw Cronfa Llenyddiaeth yr Eglwys Fethodistaidd Gymraeg a Chartrefi Cenedlaethol y Plant.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Iau, Mai 27, yn y Ganolfan o dan lywyddiaeth Mrs. Hannah Jones, treuliwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr. J. Meirion Hughes, Swyddog Iechyd Amgylcheddol Arfon, a roddodd ffilmiau a sgwrs am ei waith yn yr Adran. Diolchwyd iddo gan Mrs. Elina Roberts. Rhoddwyd croeso'n ôl i Miss Morfudd Evans a Mrs. Llew Batten, Mrs. Megan Owen a Mrs. Katie Owen sydd wedi bod yn cwyno'n ddiweddar. Y gwsteion oedd Mrs. Megan Hughes, Mrs. Nellie Carveth, Miss Rebecca Williams, Mrs. Robert Morris, Mrs. Dilys Roberts, Mrs. A. Wilson Jones a Mrs. Non Evans. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Ray Williams.

PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Hywel Morris, Blodwel, Dôl Elidir, ar ddathlu eu priodas aur ar Fehefin 14eg.

CYMORTH CRISTNOGOL

Casgliad Nant Peris: £17; Llanberis: £86. Casgliad Sul Ewyllys Da yr Urdd Llanberis: £7.50

O SENEDDAU'R FRO

Ydach chi wedi sylweddoli mor ddiddorol ydi dod ar draws hen bapur newydd petai o ond blwydd oed?

Mae hen gofnodion seneddau ein bro yn hynod o ddiddorol hefyd. Ar Awst y 27ain 1910 cynhaliwyd Cwrdd Plwyf arbennig yn Llanddeiniolen i gael llais y plwyfolion ar y priodoldeb o fabwysiadu Deddf y Llyfrgelloedd Cyhoeddus. Pleidleisiwyd ar y mater ac yr oedd 96 o blaid mabwysiadu'r ddeddf a 31 yn erbyn. Rhaid felly oedd mabwysiadu'r ddeddf oni bai fod rhywun yn hawlio "Poll" ar y cwestiwn. Ar ôl cryn drafod penderfynwyd cael "poll" ac fe'i cynhaliwyd ar yr 8fed o Fedi 1910 mewn chwe ardal yn y plwyf o hanner dydd hyd wyth o'r gloch. Fe bleidleisiodd 956, ac fe gludwyd y bocsus balot i'r Gynghorfa i'w cyfrif a chael fod 527 o blaid mabwysiadu'r Ddeddf a 429 yn erbyn. Felly drwy fwyafrif o 98 y mabwysiadodd etholwyr Llanddeiniolen Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus Rhydd 1892.

YN ÔL AT HEDDIW

Cwynion parhaol o Fethel am nad yw'r lori ysbwriel yn galw'n rheolaidd ar ddydd Iau fel y dylai. Weithiau fe ddaw ar ddydd Iau, dro arall ddydd Gwener, gyda'r canlyniad fod y bagiau'n torri a sbwriel yn cael ei wasgaru trwy'r pentref. "Plis Cyngor Arfon, dowch yn rheolaidd". Nid yn unig mae'r drefn bresennol yn achosi anhwylostod a llanast, ond hefyd mae'n beryglus i iechyd ar y tywydd poeth 'ma.

Bu Cynghorau Cymdeithas Llanrug a Llanddeiniolen yn cydgyfarfod yr wythnos ddiwethaf i drafod mater y Ganolfan arfaethedig yn Llanberis. Mae Cyngor Llanrug yn feiriadol iawn o Gyngor Arfon am yr oediad ynglŷn â'r cynllun i adeiladu 34 o dai a 10 bynglo

ar dir Brynmoelyn.

Ceir cwynion o Lanberis am fod y Cyngor Sir wedi gwneud i ffwrdd â'r dynion a arferai lanhau'r ffyrdd. Mae hon yn gŵyn a glywir yn aml yn Llanddeiniolen hefyd.

ANGORFA

Tipyn yn siomedig fu ymateb Cyngor Arfon i gais Cyngor Cymdeithas Llanberis am rodd tuag at adnewyddu Angorfa — cartref T. Rowland Hughes. Mae'r Cyngor yn symud ymlaen i wneud atgyweiriadau. Derbyniwyd siec oddi wrth Mr. Brymer ar ran Clwb Prosiect Llanberis tuag at y gost.

Mae ein Haelod Seneddol, Mr. Dafydd Wigley, am gael amser prysur yn ystod ei wyliau. Mae o'n awyddus i gyfarfod â phob Cyngor Cymdeithas sydd yn ei etholaeth. Mae Cyngor Llanddeiniolen eisoes wedi trefnu i Mr. Wigley ddod i'w cyfarfod ar y 14eg o Fedi.

Mae cadw llwybrau cyhoeddus yn agored yn broblem i'r Cynghorau y dyddiau hyn, a cheir cwynion yn aml am lwybrau yn cau gan dyfiant. Byddwch yn amyneddgar — mae cannoedd o lwybrau i'w trin, ac yn anffodus mae'r tyfiant yn tyfu yr un adeg ym mhobman.

CYNHADLEDD I GLERCOD

Mater diddorol yn codi yng Nghynhadledd Clercod Cynghorau Cymdeithas a gynhaliwyd yn Bournemouth yn ddiweddar, sef y dylai clercod y Cynghorau eistedd arholiad cyn cael eu derbyn yn aelodau o'r Gymdeithas.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWR LLEOL

Atgof o'r Archifau



Cerddorfa Bethel.

Dau lun a fydd yn tystio i'r oesoedd a ddêl am y diddordeb mawr a fu mewn diwylliant yn yr ardal ar un cyfnod. Meddyliwch am y peth mewn difrif calon – Dwy gerddorfa mewn dau bentref bychan. Beth sydd wedi mynd o'i le deudwch ?

Pa bryd y sefydlwyd hwn tybed? Oes rhywun yn gwybod rhywbeth am yr aelodau neu hanes y gerddorfa ?



Cerddorfa Cwm-y-Glo.

Beth am hwn? Peidiwch da chi â dal y wybodaeth yn ôl. Bydd y Golygydd yn hynod falch o unrhyw wybodaeth amdanynt.

TAN-Y-COED

O'R YSBYTY

Mae Mrs. Ceinwen Roberts, Ael-y-Bryn, Tanycoed wedi dychwelyd o'r Ysbyty. Croeso gartref iddi.

TAITH I DDOLWAR FACH

Aeth Cymdeithas Lenyddol Pont-rhythallt, Hermon, Bryngwyn a Thanycoed ar wibdaith i Ddolwar Fach. Yn ystod y daith datganwyd gwerthfawrogiad o waith yr ysgrifennydd, Mrs. E. Whiteside Thomas, Dolwar, Bro Rhythallt, yn trefnu taith mor ddiddorol a bendithiol, a hefyd am ei llafur diwyd fel ysgrifennydd y Gymdeithas Lenyddol.

MANTOLEN CYFRIF GŴYL CHWARAEON PENISARWAUN 1976

Derbyniadau	
Rhaglenni	26.34
Disco	12.52
Nwyddau (Crisps, pop, hufen ia)	67.24
Carnifal	6.20
Mabolgampau	3.00
Raffl	4.74
Pêldroed 5 bob ochr	4.56
Rhoddion gan ffrindiau	23.45
	148.05

Taliadau	
Papur printio	3.05
Band Disco	5.00
Nwyddau (Crisps, pop, hufen ia)	48.19
Carnifal, gwobrau	
Mabolgampau, gwobrau	38.40
Tân Gwylt (Tach. '75)	25.00
Yswiriant y cae '76	10.00
Neuadd	1.25
	130.89

Elw	17.16
-----	--------------

PENISARWAUN

EISTEDDFOD POWYS

Llongyfarchiadau i Yvonne Evans, Gors, am ddod yn ail yn Adran Celf a Chrefft gyda (1) Llawysgrif a (2) Crosio. Hefyd cafwyd 'Cymradwyaeth Uchel' am wau Crafat eto yn yr Adran Celf a Chrefft.

LLYTHYR DIDDOROL

Daeth llythyr diddorol i law oddi wrth Mary C. Williams a'i chwaer Muriel Hughes o Bexhill on Sea, Sussex.

Gadawsant Benisarwaun hanner can mlynedd yn ôl a daw atgofion melys iddynt wrth gael yr Eco drwy law Mrs. Roberts, Ship Cottage. Maent yn cofio Mrs. Trevor Hughes, Glasgoed, yn sefyll ym Mhorth Eglwys Santes Helen ar Ddydd Sul y Pasg yn cyflwyno wy pinc i'r genethod ac un glas i'r bechgyn. Cofiant hefyd am Jecw a Mary Roberts yn cadw siop y drws nesaf i dŷ Huw Williams rwan a'r plant yn adrodd "Jecw a Mary Pritchard yn trio gwerthu siop, Afal ac Oranj ac India Roc". Maent yn gallu blasu o hyd y pennog-picl a werthwyd yn y siop, meddent. Mae Eco'r Wyddfa yn diolch iddynt am eu llythyr ac yn anfon dymuniadau da'r fro iddynt.

MERCH ADDAWOL

Llongyfarchiadau i Alison, merch Myfi a Gwyn Jones, Bryn Hyfryd, am ei llwyddiant ym Mabolgampau Ysgolion Gwynedd yn Nhywyn. Cafodd gyntaf gyda lluchio'r ddisgen a chyntaf (a thorri'r record) gyda'r naid hir pan neidiodd 4.18 metr.

GŴYL BENISARWAUN

DISCO Cafwyd noson lwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys. Daeth 120 o bobl ifainc ynghyd i gael eu difyrru gan yr "Entertainers".

CARNIFAL Oherwydd y glaw trwm bu'n rhaid cynnal y Carnifal yn Neuadd yr Eglwys. Cyfyngodd hyn ar y gweithgareddau a fwr-iadwyd. Yr oedd criw Penisarwaun yn teimlo'n ddigalon wrth baratoi'r cae fore Sadwrn a hithau'n glawio, ond codwyd ein calonnau pan welsom griw Llanberis ar daith gerdded yn anelu at Ddinorwig a'r cymylau!

Enillydd o'r Enillwyr oedd Sandra Jones, Ty'n Gerddi. Aeth cwpan y Ras Draws-gwlad i Norman Jones, Bryntirion.

MABOLGAMPAU. Cafwyd noson ddelfrydol i'r chwaraeon gyda Dafydd Evans mewn llais da ar y corn siarad. Hefyd yr oedd 'na griw ardderchog o ferched yn rhedeg y bwrdd gwerthu.

PUMP Y PEN. Cafwyd noson ardderchog arall gyda chwe thîm yn cystadlu. Enillwyr y cwpan oedd tim Siop Gron gydag Eurwyn Jones yn gapten. Enillydd cystadleuaeth gêm ciciau cosb oedd Barry Jones, - peldroediwr addawol iawn.

Diolchiadau yr ardal i : Mrs. Nix, Talsarnau; Mr. Ieuan Owen, Caernarfon; Mr. a Mrs. W.T. Matthews, Freshwinds; Mr. K. Owen, Caerau; Dr. Williams, Ortavia; Miss P. Ellis, Rhosfair; Mrs. Roberts, Ship Cottage; Mrs. M. Jones, Arthur Terrace; Mrs. G. Jones, Tremel-ian; Mr. W.R. Jones, Arthur Terrace a Mrs. R. Firth, Arthur Terrace a Miss A.M. Williams, Bryn-

refail am eu rhoddion tuag at yr Ŵyl. Diolch i'r ficer am ei gymorth, ac i'r Eglwys am fenthyg y Neuadd. Diolch i Mr. Len Jones, Mr. Ieuan Owen, Caernarfon, Maureen Rhys a Mr. John Ogwen am arwain a beirniadu. Diolch hefyd i Mrs. Roberts, Tai Croes-ion, Mr. W.H. Griffith, Llys, am ofalu bod caeau gennym i gynnal yr Ŵyl, ac i Mr. Elfed Williams am ei gymorth. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i wyllo neu gystadlu, ac yn olaf i aelodau'r Pwyllgor Adloniant am weithio mor galed er llwyddiant yr Ŵyl.

MRS. M. GREEN

Trist oedd clywed am farw aeth Mrs. M. Green. Bu'n wael am amser hir, ond derbyniodd ei salwch heb gwyno o gwbl. Yr oedd yn hynod o ddiolchgar am y caredigrwydd a ddangoswyd iddi yn ei salwch gan ei theulu a'i chymdogion. Mae'n gadael 3 mab sy'n byw yn y pentref a 2 ferch. Penderfynodd y teulu beidio â derbyn blodau yn yr angladd ond gwneud cronfa tuag at yr Ymchwil i Gancr. Hoffai'r hogiau ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad ac am gyfrannu tuag at y gronfa sydd erbyn hyn yn £56.85.

I BEN YR WYDDFA

Aeth Mrs. Nansi Jones ac Anwen, Meillionydd; Mrs. Betty Eiddwen Hughes a Bronwen, Brynhyfryd, a Miss Dwynwen Jones ar daith gerdded dros y Sulgwyn. Ni fuont fawr o amser yn cyrraedd copa'r Wyddfa ac wrth wneud felly casglasant dros £20 at achosion da.

STORFA

Mace
S.&E.
Jones
Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWR
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA
LLANRUG

FFÔN
CAERNARFON 2790

NANT PERIS

O'R YSBYTY

Croeso adref i Hefina ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Yr ydym yn falch o'i gweld o gwmpas unwaith eto ac yn gwella. Dymuna Hefina ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da.

Da deall mai byr fu arhosiad Mrs. Tecwyn Griffith yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Mawr hyderwn y caiff wellhad llwyr ac yr ydym yn falch o'i gweld yn ôl yn y Nant

I'R YSBYTY

Drwg gennym fod Mrs. Margaret Roberts, Glanrafon wedi gorfod mynd i Ysbyty Minffordd yr wythnos ddiwethaf. Dymunwn iddi wellhad llwyr a buan.

Dymunwn adferiad buan hefyd i Mrs. Janet S. Jones, Elidir, sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Mrs. Jones yw un o ferched hynaf y Nant. Daeth hi a'i phriod i fyw yma o Feddgelert flynyddoedd yn ôl.

CROESO I GARETH WYN

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Gruffydd Roberts, Bro Glyder ar gael mab. Mae'n siwr fod Gareth Wyn yn cael croeso mawr gan Trefor.

LLONGYFARCHIADAU

Enillodd Mr. Meirion Pritchard, Tŷ Isaf, ddau gwpan mewn Arddangosfa Hyrddod yn ystod yr wythnosau diwethaf.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn fel ardal ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r ddiweddar Mrs. Maggie Griffith, Beudy Mawr. Gadawodd Mrs. Griffith y Nant 16 mlynedd yn ôl. Daeth y diwedd yn sydyn a daeth tyrfa i dalu'r gymwynas olaf iddi yn Eglwys Nant Peris. Derbyniad y teulu i gyd ein cydymdeimlad dwysaf â hwy yn eu profedigaeth.

PERERINDOD

Ar bererindod i Ddolwar Fach yn ddiweddar cafodd Menai Hughes, Tŷ'r Ysgol, y fraint o ledio un o emynau John Hughes, Pontrobert o'i bulpud yn hen gapel Pontrobert. Y mae Menai yn un o ffyddloniaid oedfa'r bore a'r Ysgol Sul yn Rehoboth ac y mae'n siwr yr erys y cof am yr achlysur hwn gyda hi gydol ei hoes.

CLWB ERYRI

Llongyfarchiadau i Mr. Owen Humphreys, Gwastadnant, ar gael ei ethol yn Is-lywydd Clwb Eryri ym mlynedd dathlu'r Clwb yn un-ar-hugain oed.

CYDYMDEIMLAD

Daeth gair o'r Unol Daleithiau yn ystod yr wythnos ddiwethaf am farwolaeth Mrs. Catherine Hughes, chwaer Mr. Michael Pritchard, Ffordd Capel Coch, a'r diweddar Thomas Pritchard, Ceunant. Ymfudodd i'r Amerig dros 60 mlynedd yn ôl, ac ymwelodd am y tro olaf â Chymru ddwy flynedd yn ôl. Er fod ei hiechyd yn fregus ers rhai blyneddodd cyrhaeddodd yr oedran teg o 88. Derbyniad y teulu oll ein cydymdeimlad llwyr â hwy yn eu profedigaeth.

DINORWIG

ADREF O'R YSBYTY

Da gennym ddeall fod Mr. J.H. Williams, 7 Maes Eilian, wedi dod adref o Ysbyty Gallt-y-Sil, lle bu am gyfnod hir. Da gennym glywed fod Mr. Emlyn Griffith, 8 Bro Elidir, wedi dod adref o Ysbyty Eryri wedi triniaeth. Hefyd Mr. Thomas Parry, Foel Gron, a Mr. Renell Williams, Tan-y-Fron, dosbarthwr Eco'r Wyddfa yn ardal Fachwen, o'r ysbytai ym Mangor. Dymunir adferiad iechyd llwyr a buan iddynt.

YN YR YSBYTY

Dymunir gwellad buan i Mrs. Ann Jones, 3 Bro Elidir, sydd yn Ysbyty Brynhyfryd; a Mr. John D. Williams, Ty'n fawnog yn Ysbyty Bryn Seiont.

GŴYL BREGETHU

Bu Gŵyl Bregethu flynyddol Eglwys Sardis (B) y Sulgwyn. Y gennad mewn tair oedfa oedd y Parch. Dafydd H. Edwards, B.A., o Ganolfan Gristnogol Langton, Dyfed.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL

Aeth aelodau'r Gymdeithas am drip Sadwrn, Mehefin 10fed, o Ddinorwig trwy Gorwen, Llangollen, i Groesoswallt. Wedi te yno adref trwy Ddinas Mawddwy, Dolgellau, Pen-y-groes, i Ddinorwig. Mwynhawyd gan bawb. Gwnaed y trefniadau gan Mr.

Gwilym L. Williams, Deiniolen Motors; Meistri David L. Hughes, 2 Maes Eilian a John Eryl Roberts, 3 Maes Eilian. Llywyddwyd y gweithrediadau gan Mr. Eddie Lewis, Rhydfadog.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Kelvin Pleming, 1 Maes Eilian, ar ennill gwobr gyda gwaith arlunio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhorthaethwy.

ENNILL MEDAL AUR

Llongyferchir yr aelodau canlynol o'r Clwb Ieuenctid ar eu gwaith yn ennill Medal Aur mewn cystadleuthau trwy Gymru i aelodau Cymdeithasau Ieuenctid: Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol—cyfansoddi cerddoriaeth; Mr. Emrys Roberts, Ysgubor—sgrifennu stori fer; a Mr. John Eryl Roberts, 3 Maes Eilian—cyfansoddi barddoniaeth. Dyma'r ail dro yn olynol iddynt ennill y wobwr.

CYFARCHION

Cyfarchion cynnes at eu cydnabod oddi wrth Mr. a Mrs. Harry T. Lewis a'r plant (Bryn Sardis, Dinorwig gynt). Bydd darllenwyr yr Eco'n falch o wybod fod y teulu'n llwyddo yn Awstralia ar ôl ymfudo yno bron i saith mlynedd yn ol, ac er cadw mewn cysylltiad â'r hen fro, maent wedi trefnu i gael copi o'r Eco'n rheolaidd am y flwyddyn nesaf.

BRYN-REFAIL

PERSONOL — ROBERTS

Llongyfarchiadau i Eleri ar gyrraedd dy 21ain, Mehefin 27. Pob llwyddiant yn y dyfodol. *Mam, Bethan, Uncle Jack, Glandwr, Brynrefail.*

SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Iau, Mehefin 17eg, cafwyd cyfarfod o'r uchod gyda Mrs. Jennie Hughes, Bryn Garth, yn llywyddu. Croesawyd Mrs. Howdle atom o Lanberis, a rhoddodd adroddiad manwl ar ei hymwelriad fel cynrychiolydd yn yr Albert Hall yn y Cyfarfod Blyneddol. Diolchwyd iddi gan Mrs. Gwyneth Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs. J.A. Roberts, Glandwr a Mrs. Mair Williams, Orwig Terrace.

CLWB YR EFAIL

Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr. Richard Hughes (Co

Bach) o'r Felinheli ar Fai 25ain. Soniodd Mr. Hughes am Hen Dref Caernarfon a chawsom adroddiad neu ddau o helyntion Co Bach a'r "Fodan". Rhodwyd y te gan Mrs. Megan Jones, Greuor, Mrs. G. Pritchard, Glyn Afon, a Mrs. Eifiona Jones, Bron Eryri.

Nos Fawrth, Mehefin 22ain, yng Nghlwb yr Efail cafwyd Cyfarfod Agored o dan lywyddiaeth Mr. G. Pritchard, Glyn Afon. Agorodd y Cynghorydd Mrs. Pat Larsen y cyfarfod trwy roi crynodeb o'r Pwyllgor Mawr a fu yn Ysgol Brynrefail Llanrug ychydig amser yn ôl. Siaradwyd ymhellach gan Mr. Rol Williams, Waunfawr, y Cynghorydd Gwyn Oliver Jones, Deiniolen a Mr. Ken Jones, Cae Coch. Hefyd siaradwyd dros y

Saesón oedd yn bresennol gan Mr. a Mrs. Wager a Mr. Derek Davies. Cafwyd trafodaeth frwd ynglŷn ag awgrymiad a wnaed yn Llanrug i ddefnyddio'r Ysgol ar gyfer plant oedd angen Addysg Arbennig. Siaradodd Mr. Norman Davies, Swyddog Addysg Arbennig y Cyngor Sir, i geisio rhoi agoriad llygad inni beth oedd plant ag angen Addysg Arbennig yn ei olygu. Cafwyd unfrydedd o blaid cynnig Mr. Ken Jones, Cae Coch ein bod trwy law Mr. Gwyn Oliver Jones yn anfon gwrthwynebiad pendant yr ardalwyr i'r bwriad o ddefnyddio'r ysgol i'r pwrpas hwn. Cafwyd paned o de gan Mrs. H.J. Jones a Mrs. Gwyneth Jones, Trem Eilian.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



12

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
7 Perchennog : J. Evans



Dawnsywyr Morris Ysgol

Bydd mwy o luniau yn ymddangos mewn

FAL LLANRUG



Gynradd Llanrug yn rhoddi perfformiad bythgofiadwy

GARNIFAL LLANRUG a'r holl Garnifaliau eraill
rhifyn arbennig o **ECO'R WYDDFA** y mis nesaf.

**Cofiwch amdano — RHIFYN GWAHANOL, BYTH-
GOFIADWY** i wneud Haf 1976 yn haf i'w gofio!

Parhad o dud 2

alwodd yr heddlu i'r safle. Ym mhresenoldeb yr heddlu gweddnewidiwyd agwedd rhai o yrrwyr United Gravel (perch. McAlpine) o fod megis ŵyn bach i fod yn llanciau 'dewr', — un neu ddau yn bygwth drwn i'r picedwyr.

BYGYTHIADAU

Ers dyddiau cynnar y streic wynebodd y streicwyr sawl bygythiad. Bygythiwyd y sac iddynt os na roddent y gorau i'w safiad. Caniataodd y TGWU i fêt-ffitwyr gael eu dyrchafu'n ffitwyr yn ystod streic swyddogol eu cyd-undebwyr llafur. Mae hyn yn fygythiad amlwg i fywoliaeth crefftwr yn ei fro ei hun. Tra 'safai'r hogia' deuai crefftwyr o bob rhan o Brydain i gymryd eu lle.

MEWN UNDEB MAE NERTH

Trefnodd Idwal Edwards gyfarfod pellach rhwng cynrychiolwyr y streicwyr a swyddogion llawn-amser eu hundebau. Cyt-unwyd ar fformiwla newydd i geisio datrys yr anghydfod. Fe'i hanfonwyd i Lundain i'w hystyried ddydd Mawrth, Mehefin 22ain.

Gofynnodd pwyllgor y streic i stiwardiaid y safle am gefnogaeth yr holl weithwyr; y tro o'r blaen cefnogwyd cais cyffelyb oddi wrth y TGWU gant-

y-cant. Trist cofnodi na chafwyd undod yr eildro. Yn y pen draw MBZ fydd ar eu hennill os gadewir iddynt chwarae'r hen gêm o reoli drwy ein rhannu.

DYCHWELYD I'R GWAITH

O ganlyniad i'r trafodaethau pellach yn Llundain yr wythnos diwethaf (Mehefin 20-26) mae cytundeb ar y gweill yn awr. Ni ellir manylu ar hyn o bryd, ond mae'r streicwyr yn sicr y bydd trafodaethau buan a buddiol gyda MBZ ynglŷn â thaliadau bonws y crefftwyr a diogelwch y gwaith. Sicrhawyd y streicwyr na chânt eu herlid.

Felly, dychwelodd yr hogia i'w gwaith fore Iau, Mehefin 24.

DIRGELWCH A DIWEDDGLO

Erys un cwestiwn i'w ateb. Pwy oedd y ddau ddyn hefo camera a stand deirtroed fu'n stelcian yn llechwraidd ger safle'r picedu yn ystod wythnosau olaf y streic? Be' neu pwy oedd yn cael ei ffilmio, ac i be'?

Bydd Draenog yn dychwelyd â'i drwyn i ddaear safle Dinorwig er mwyn cyhoeddi'r hyn sy'n digwydd yno yn y dyfodol.

Dymuna Draenog ddiolch i sawl un am y wybodaeth a gyflwynir yma. Rhaid cadw eu henwau'n ddiregel. Apelir arnynt hwy i beidio datgelu'r Draenog.

Maes y Mepched

Helo 'na. Cyn ichi fynd allan i'r ardd i dorheulo (a'ch sbectol haul a'ch copi o Eco'r Wyddfa hefo chi wrth gwrs) meddylwch am funud am yr ewyn gwyn yna 'rydych yn ei rwbio i'ch croen i gael gwell lliw hau!

A feddylioch chi ddwywaith cyn prynu Erosol yn hytrach na photel ohono? Neu, a gawsoch chi'r profiad erioed o ddefnyddio niwl gwallt yn lle ewyn siafio, neu niwl lladd pryfed i lanhau eich stof? Hawdd iawn i'w wneud meddech chi, ond eto, tybed a wyddom ni ddigon am effaith yr erosols yma yn y cartref?

FFEITHIAU EROSOLAIDD

Ar hyn o bryd fe werthir 10 miliwn o erosolion bob wythnos ym Mhrydain ac mae hyn yn ddwbl y gwerthiant yn 1970. Yn yr Unol Daleithiau mae'r rhif yn agos i 3,000 o filiynau yr wythnos. Yn ôl adroddiad diweddar os pery'r gwerthiant i gynyddu fel hyn, yn 1995 gall achosi gostyngiad o 30% yn nhrwch yr haen o osone sydd o gylch y byd. O ganlyniad i hyn bydd llawer mwy o berygl o gancr y croen (mwy o belydrau 'ultra-violet') a hefyd gall y gostyngiad yma yn yr osone achosi i ni gael tywydd eithaf od yn y dyfodol.

POBLOGAIDD

Mae'n ddigon â dychryn rhywun a dweud y gwir! Ond pam mae'r erosols yma mor boblogaidd? Mae'n rhaid dweud eu bod yn ddefnyddiol iawn i ladd ambell gacynen neu i ysgafnhau'r gwaith o lanhau stof — a dyna fendith yw'r erosol yna i roi ar blygiau'r car ar dywydd gwlyb. Ond mae llawer o fwydd, glanedyddion a chosmetigau ar werth yn y ffurf yma a rhaid cyfaddef eu bod yn ddud. Ond mae'n amlwg fod pobl yn barod i dalu am yr hwylustod ac am safon uchel y cynnwys — er enghraifft gallwch gadw glanedydd ffenestri am fisoedd mewn erosol lle gall fod wedi sychu'n grimp mewn potel heb ei chau'n iawn.

CODI ARSWYD

Mae darllen y cyfarwyddiadau ar y tu allan yn ddigon a chodi arswyd. Nodiadau fel "Cadwch allan o gyrraedd plant"; "Peidiwch â cheisio'i agor pan mae'n wag"; "Peidiwch ag anadlu'r niwl trwy'r trwyn". A beth am bobl mewn oed, â'u golwg efallai yn fyr, sy'n methu â darllen y cyfarwyddiadau? Yn ôl y cyfarwyddiadau mae'n bwysig iawn cadw'r erosol "mewn man pwrpasol", hynny yw, cadw yn yr ystafell ymolchi dim ond yr erosols sy'n debyg o gael eu defnyddio yno (rhag ofn i'r un peth ddigwydd i chi ag i'r bachgen ifanc oedd â'i freichiau ar led drwy'r dydd yn yr offis ar ôl rhoi trochfa oer o starts o dan ei geseiliau y bore hwnnw!!)

MANTEISION

Mantais pennaf rhoi glanedyddion a bwydydd mewn erosol yw i haenu'r cynnwys yn llyfn ar yr arwynebedd, ac i wneud hynny'n ddiwastraff — wnaiff y cynnwys ddim colli os digwydd ichi droi'r can. Rhaid ysgwyd y rhan fwyaf ohonynt i gymysgu'r cynnwys, rhaid ei ddal ar i fyny cyn pwyso'r botwm, a rhaid cadw'r jet yn glir.

Wrth siopa, efallai y dylem bwyso a mesur cyn codi'r ersol o'r silff i'r fasedd. Heblaw am waethgu'r broblem o hagra'r amgylchedd tybed a ydym, heb ystyried, yn ddifater ynglŷn ag iechyd plant ein plant?

SYNIAD GORAU'R MIS

Yn lle tynnu'r sticer pris oddi ar duniau bwyd cyn eu cadw, 'sgwennwch y dyddiad arno. Gellwch ddefnyddio'r bwyd yn ei dro a hefyd gymharu prisiau o un mis i'r llall.

'Sgwennwch i mewn, da chi! Rhyw bwt o farn am y golofn hyd yn hyn, neu hanesyn didd- orol am fywyd yn eich cegin CHI.



DANTEITHION DRAENOG

Newyddion da a ddaeth i'm Bro. Clywais oddi wrth chwaer ddraenoges sy'n gweithio yn un o siopau mawrion Fortnum and Mason mai ychydig iawn o godiad fu ym mhrys Beluga Caviar eleni. Dim ond £48 y pwys yw. Beluga Caviar yn siopau Fortnum and Mason ar hyn o bryd. Brysiwch yno!

Ôl-nodyn — yn anffodus methodd Draenog a dod o hyd i siop Fortnum and Mason yn y Fro hon.

E & E. M. GREEN

SIOP
GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

Dewis rhagorol
Croeso cartrefol

BARGEINION

SPAR



WYTHNOS (A DAU DDIWRNOD) * GARNIFAL LLANBERIS

GORFFENNAF * 9—17 *

GWENER 9 — DISCO 8.00 — Y GANOLFAN
SUL 11 — NOSON O GÂN — CAPEL COCH
LLUN 12 — GYRFA CHWIST 7.30 — Y GANOLFAN

MAWRTH 13 — BINGO 7.30 — Y GANOLFAN
MERCHER 14 — FFEINAL DARTS 8.00 —
GWESTY'R CASTELL

IAU 15 — GEMAU GIAMOCS — DDÔL Y
GOEDEN
GWENER 16 — CHWARAEON 5.45 — DDÔL Y
GOEDEN

* SADWRN GORFFENNAF 17
CARNIFAL ar DDÔL Y GOEDEN
(I'w agor gan John Ogwen a Maureen Rhys
BBC — ITV)

Yr orymdaith i gychwyn o Stryd Goodman am
1.05 o'r gloch — gyda Seindorf Arian Llanberis,
a dawnswyr Morris Llanberis a Chonwy yn
bresennol

Rhaglenni ar wahân ar gyfer y Chwaraeon a'r
Gwisgo Ffansi
Manylion pellach o'r 'Noson o Gân'

Y FWYA YN Y FRO!

NOS IAU — Gorffennaf 15 — Ddôl y Goeden 6.45
GEMAU GIAMOCS
rhwng timau o
Ddeiniolen, Llanrug, Cwm-y-glo, Llanberis
Rhoddir tlws gan Eco'r Wyddfa i'r enillwyr

CROESO

I BAWB

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Un gwael ydw i am gysgu wyddoch chi, sobor a deud y gwir, a'r noson o'r blaen 'roeddwn i wedi hen 'laru ar gyfri' defaid.

A dyna fi'n dechrau crwydro, — crwydro'n atgofus o gwmpas hen eisteddfodau ardal Eco'r Wyddfa. 'Steddfodau enwog a llwyddiannus Cefn y Waun, Glasgoed, Capel Mawr Llanrug, Bethel, Nant Padarn, ac Eisteddfod Gadeiriol a Choronog Gorffwysfa Llanberis. Yn wir, mae arna i'n bersonol ddyled fawr i rai o'r eisteddfodau hyn am y cyfle a gefais i i ennill y goron a'r gadair gyntaf, ond yn bwysicach o lawer efallai am y cyfle a gefais i ddechrau llunio darnau adrodd addas i blant. Yn eisteddfod Penisarwaun y mentrais i yn ddigon crynedig i feirniadu am y tro cyntaf erioed hefyd, bobol 'tydi amser yn fflio!

GWEFR WEDI MYND

Mae'n wir fod eisteddfodau bychain yn cael eu cynnal mewn rhai o'r mannau hyn o hyd, ond rhaid cyfaddef fod y wir wefr eisteddfodol wedi diflannu o fro Eco'r Wyddfa. Beth yw'r rheswm am y dirywiad tybed? Pam mae eisteddfodau mewn ardaloedd cyfagos fel Groeslon, Carmel, Y Felinheli, Bontnewydd, a Dyffryn Ogwen yn dal eu tir? Gyda llaw, ydach chi wedi sylweddoli mai pentrefi cefn gwlad Cymru ac nid y trefi sy'n cadw'r traddodiad eisteddfodol yn fyw?

Ys gwn i a oes digon o ddiddordeb yn y fro i sefydlu eisteddfod gadeiriol Eco'r Wyddfa a'i chyfyngu hi efallai er noddi talentau y tri phlwyf? Efallai y gellid ei rhedeg ar batrwm Eisteddfod yr Urdd, trwy gynnal mân eisteddfodau ym mhob ardal, a'r enillwyr i ymddangos yn yr Eisteddfod derfynol. Gofalwn rhag un peth fodd bynnag, sef ei gwneud yn gystadleuaeth rhwng ysgolion y cylch. Wrth gwrs, ge gyfyd anawsterau, ond yn sicr fe ddylem ystyried y posibilrwydd o gychwyn Eisteddfod Eco'r Wyddfa, petai ond er mwyn rhoi cyfle i dalentau ifanc y fro 'ma. Ystyriwch y posibilrwydd. A oes Heddwch?

YMATEB Y PLANT

Wyth oed ydi Bethan Jones o Lanberis ac mi fydd yn darllen Llannerch y Llenor bob mis meddai hi. Daeth i'm dosbarth yn swil y dydd o'r blaen hefo'r gerdd fach hon i 'Lan y Môr'.

Ar lan y môr mae cregyn
A rheini'n gregyn hardd,
Maent yno'n llw, — rhai piws a gwyn
Fel blodau tlws yr ardd.

Mae yno fulod hefyd,
O bobol, maent yn swil,
Yn cario plant ar hyd y traeth,
Pawb ond Jac a Wil.

* * * *

Wel, ardderchog Bethan, chi yw'r ieuengaf i anfon cerdd i mi. Ys gwn i faint mwy o blant bach

y fro 'ma sy'n cael hwyl ar lunio cerddi swynol fel hyn? Ydi, mae'n ddyletswydd arnom i sefydlu Eisteddfod er mwyn rhoi cyfle i rai fel Bethan.

Mae'r awen yn cynhyrfu plant hynaf Ysgol Dolbadarn y dyddiau hyn hefyd, ac 'rydym wedi cael mwynhad mawr wrth lunio cerddi ein hunain yn y dosbarthiadau Cymraeg. Dyma damaid i'w brofi. Cytunodd y plant mai "Oedfa'r Bore" fyddai'n destun addas i'r gerdd.

OEDFA'R BORE

Lle mawr
yn llawn o seddau gweigion yn
sgleinio

powlenni o lampau
yn hongian o'r to.
Bocs mawr agored
a ffendar o goed o'i gwmpas.
Un ar ddeg oedd yno,
Pedair dynes dew dan eu hetiau

blodau,
Pum dyn â'u pennau fel Kojak,
a dad a minnau.
Pawb yn fud yn gwrandao ar organ.

Yna, dyn hefo colar polo mint
yn dringo'r grisiau
i'r bocs pren farnis,
a sefyll rhwng y symys ar y pared.
Darllenodd stori sych o lyfr mawr du,
llyfr mwy na "Llyfr Mawr y Plant",
Dwedodd ei bader am oriau,
a chyn inni roi ceiniog mewn rhaw
gwylltiodd yn gacwn
ac fe golbiodd y llyfr mawr du
"Er mwyn Iesu Grist
Amen."

Canu eto,
a'r organ yn boddi'r geiriau,
ac allan â ni i'r stryd,
i'r haul
a'r goleuni;
Stryd yn ogleuo o datws a grefi.

Dew!,
rwy'n edrych ymlaen at ginio
dydd Sul
a'r 'Big Match' am ddau.

* * * *

Diolch ichi am anfon eich cerddi imi, ac am sawl llythyr diddorol — daliwch i wneud —
Crud yr Awen, Bethel yw'r cyfeiriad. Bydd, mi fydd 'na gystadleuaeth llinell goll eto'n reit fuan.

Pob hwyl

Selwyn.



DYWEDIADAU DOETH DRAENOG

Dyn sy'n colli gwallt talcen ei ben — arwydd o ddyn sy'n meddwl. Dyn sy'n colli gwallt corun ei ben — arwydd o ddyn sy'n secsi. Dyn sy'n colli'i wallt i gyd — arwydd o ddyn sydd dim ond yn meddwl ei fod yn secsi.

CHWEDLAU'R FRO



gan JOHN OWEN HUWS

Rhoddwyd y golofn yma y mis diwethaf bron i gyd i sôn am yr enwog Farged Uch Ifan ond dylai'r ddau gymeriad canlynol hefyd gael eu lle yn anrhydeddus yn Chwedlau'r Fro.

Bu dyn cryf yn Llanberis hefyd, sef Ffowc Jones, Tŷ Du. Cyfeiriodd John Evans ato yn 1798, gan ddweud iddo farw saith mlynedd ynghynt. Un o Lanfrothen oedd Ffowc yn wreiddiol ond symudodd i'r Tŷ Du at berthynas, ac yn 1737 priododd ferch o Landdeiniolen. Nid oedd yn ddyn mawr ond 'roedd ei nerth yntau'n ddiahebol.

Dywedir i dri dyn unwaith fethu symud coeden ond iddynt wedyn weld Ffowc yn ei chario fel polyn. Dro arall 'roedd yn aredig pan ddaeth dieithryn ato i holi'r ffordd a Ffowc yn ei gyfarwyddo drwy bwyntio gyda'r gwydd. 'Roedd cawr o Ddinbych wedi clywed am nerth Ffowc a daeth i'r Tŷ Du i'w brofi. Nid oedd y cawr yn ei adnabod a chymerodd Ffowc arno mai'r gwas ydoedd ac yna'i daflu dros ben y wal i'r lôn. Dychrynodd y cawr a dianc am ei fywyd cyn cyfarfod Ffowc! Dywed hanes arall amdano'n cario buwch glwyfedig fel oen bach. Dro arall 'roedd llwdwn yn cael ei hawlio gan bobl Llanllechid a Llanberis a phenderfynwyd rhoi terfyn ar y mater drwy gael pengampwyr y ddau blwyf i ymladd.

Erbyn hyn 'roedd gwallt Ffowc yn wyn a'i gefn wedi crymu ond enillodd y llwdwn drwy ysgwyd llaw y llanc a'i wynebai a gwasgu nes y daeth gwaed allan o'i ewinedd.

CADI'R CWMGLAS

Yr olaf o drigolion cryf Llanberis oedd Cadi'r Cwmglas. 'Roedd yn chwaer i Abraham Williams (Bardd Du Eryri) ac yn byw yn yr hen dŷ yng nghanol y bwllch. Pwtan fer oedd Cadi, gydag ysgwyddau llydan a locsyn! Bugeilio defaid oedd ei gwaith a dywedir fod ganddi lais tlls iawn — gymaint felly nes llesmeirio tri dieithryn a'i clywodd. 'Roedd Cadi hithau'n eithriadol o gryf ac un dydd pan geisiodd rheolwr y gwaith copr ei lluchio i Lyn Peris, trodd a'i ddal fel baban uwchlaw'r dŵr tan yr ymddiheurodd. Dro arall, gwelodd leidr yn mynd o'i thŷ ac yn anelu am Ben y Bwlch. Carlamodd hithau ar ei ôl, ei ddal a'i bastynu yn ddi-drugaredd, gan fygwth gwaeth os dychwelai i'r ardal. Eto'i gyd dywedir nad oedd neb ffeindiaich na Cadi a'i bod yn hynod yn hyn fel popeth arall. Bu farw yn 1837 a chladdwyd hi ger yr allor yn eglwys Nant Peris.

FFARWEL I'R FFORDD

(gan Tommy Williams, Gwelfor, Bethel, ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth ar y Cyngor Sir)
Ffarwel i farbro'r cloddiau,
Ffarwel i glirio'r baw,
Ffarwel i ddisgwyll chippings
Yng nghanol gwynt a glaw.

Fe fydd 'rhen Dom yn ddiddan
Yn rhodio yn y dre
Ac arian lond ei boced
A theimlo'n 'well away'.

A phan ddaw rhew ac eira
A'r gwynt o'r dwyrain pell
Bydd Tomos fel twrch daear
Yn gynnes yn ei gell.

Gan gofio am yr adeg
Cyn iddo fynd yn hen
Pan oedd yn dojio'r traffig
Wrth weithio ar y 'Main'.

Bydd ganddo fywyd hapus
Ar ôl y 'drop down tools'
Cael eistedd yn ei gadair glyd
I wneud y 'Football Pools'.

Ac os bydd lwc yn dilyn
Ac arian mawr i ddod
Gwnaiff anfon siec i'r Cyngor Sir
I ledw'r Bethel Road.

Rhag ofn y bydd rhyw ddiwrnod
Yn pasio criw o'r bois
Ac wedi cael dyrchafiad llwyr
O ferfa i Rolls Royce.

BETHEL

TRIPIAU'R YSGOL SUL

Dydd Sadwrn nesaf, Gorff. 3ydd yw diwrnod y tripiâu i'r Rhyl. Gobeithio fod pawb sydd am fynd i'r Rhyl wedi rhoi eu henwau i mewn a gobeithio y bydd y tywydd yn ffafriol.

YR EISTEDDFOD

Cofiwch am y daith gerdded o Fethel i Ddeiniolen ac yn ôl (10 milltir) i godi arian i'r Eisteddfod. Cychwynnir o Gapel Cysegr am 1 o'r gloch dydd Sadwrn, Gorffennaf 17. Darperir paned yn Neiniolen. Mae'r ffurflenni casglu i'w cael gan Mrs. Fanny Owen.

MERCHED Y WAWR

Bydd Noson Goffi dan nawdd Merched y Wawr yn y Neuadd am 6.30 nos Wener, Gorff 9fed. Gofynnir yn garedig i'r aelodau am gyfraniad at y bwrdd gwerthu. Mae'r pwyllgor newydd eisoes wedi cyfarfod i drefnu'r rhaglen ar gyfer y tymor nesaf.

LLONGYFARCHIADAU

I Carol a Derek, Bro Rhos ar enedigaeth mab, brawd i Eilian. I Mary Wyn a John, Y Rhos, ar enedigaeth eu mab cyntaf. I John Evans, Rhos Alun, ar ddod yn drydydd yn y ras 1,000 metr o Aber i ben yr Wyddfa dros y Carneddau a'r Glyder Fawr. Cymerodd 5 awr 6 munud i gwblhau'r daith.

PLAID CYMRU

Bydd Stodin Gacennau ar y Maes yng Nghaernarfon bore Sadwrn nesaf, Gorff. 3ydd, o ddeg o'r gloch ymlaen. Bydd Anne Elis, Sycharth, yn falch o dderbyn bwydydd o bob math ar gyfer y Stodin nos Wener.

Cynhelir cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol nos Fercher, Gorff. 7fed pryd y trafodir materion pwysig.

CAE CHWARAE'R YSGOL

Yn is-Bwyllgor Datblygu'r Pwyllgor Addysg yn ystod y mis penderfynwyd prynu rhan o'r cae yng nghefn yr Ysgol i wneud cae chwarae i'r Ysgol.

CYDYMDEIMLAD

Dydd Sadwrn, Mehefin 19 bu farw Mrs. M. Griffiths, Maes yr Haul. Yn enedigol o Nant Peris bu Mrs. Griffiths yn byw yn Lôn Glai am rai blynyddoedd cyn symud i Fethel. Mae'n cydymdeimlad llwyr â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

YR URDD

Y swyddogion ar gyfer y tymor nesaf fydd: Llywydd — Mr. Geraint Elis. Trysorydd — Mr. Dafydd Williams. Ysgrifennydd — Mrs. Sian Hughes. Arweinydd y Gangen — Mr. Alwyn Jones. Bydd y tymor nesaf yn dechrau nos Wener, Hydref 1af, a'r cyfarfodydd i ddechrau am 6.30.

CAPEL Y CYSEGR

Cafwyd noson o groeso, adloniant a phaned yn Festri'r Cysegr nos Iau, Mehefin 24ain. Ar ôl paned cafwyd adloniant amrywiol. Penderfynwyd trefnu noson o chwaraeon i blant y pentref.

CAE CHWARAE'R PENTREF

Ers tro bellach mae'r gwair yn y cae chwarae wedi tyfu cymaint fel nad yw'n bosibl ei ddefnyddio. Gobeithir trefnu i dorri'r gwair yn fuan fel y bydd y cae ar gael i'r plant dros yr haf.

GWELLA

Da yw clywed fod Mr. Gwyn Hughes, Snowdonia, yn gwella ar ôl bod yn yr Ysbyty yn cael triniaeth.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Alyson Williams, Cefn y Gwynt, 1, Cefn Rhos, am lwyddo yn arholiad yr "Ophthalmic Nursing Diploma" yn yr Ysbyty Llygaid, Lerpwl. Bydd hi'n symud ymlaen i Ysbyty Broadgreen ym mis Ionawr nesaf i barhau hefo'i hyfforddiant SRN. Pob lwc iddi.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Jessica a Jayne Williams, Alizon Hughes a Bryn Jones ar ennill y wobr Gymraeg yn yr ysgol. Mae'r wobr sy'n rhodd gan Selwyn Griffith yn cael ei rhoi bob blwyddyn am y gwaith gorau yn y Gymraeg yn yr ysgol.

BEDYDDIO

Fore Sul Mehefin 27ain yng Nghapel Cysegr bedyddiwyd Huw, mab David a Lorna Owen a chwaer Fiona. I Bryn Afon. Gweinyddwyd gan y gweinidog, Y Parch. W.R. Williams.

Anfonwch newyddion Bethel i:
Geraint Elis, Sycharth.



Mi rydan ni ddraenogiaid yn ffodus iawn na 'da ni ddim yn gorfod boddran prynu tai — mae unrhyw hen dwll yn gwneud y tro i ni.

Ond tipyn o syndod oedd gweld cwmni Bob Parry yn adfyrtisio am Ysgrifenyddes i'r Adran Dai yn y Caernarvon & Draenog Herald gyda'r geiriau "WELSH NOT ESSENTIAL" mewn llythrennau bras.

Rwan, Mistar Bob Parri bach, rydan ni i gyd yn gwobod mor hoff o werthu tai i Saeson ydach chi ac nad ydach chi'n malio 'run botwm corn am drigolion y fro, ond gallwch o leia' fod yn gyfrwys ynglŷn â'r peth.



JACOB A. JAMES
Regent House • Deiniolen

Ffôn : LLANBERIS 461

GROSER PENIGAMP !

DEWCH I WELD DROSOCH EICH HUN

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS FFÔN 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

LLANRUG

GŴYL GORAWL ERYRI

Llongyfarchwn holl blant Ysgol Sul Eglwys Sant Mihangel a fu'n llwyddiannus yn arholiadau Gŵyl Gorawl Eryri. Enillodd Tecwyn Ellis Jones, Rhos Rug, Kenneth Wyn Griffiths, Tan-y-fron, Steven R. Williams, Glanmoelyn a Colin Lloyd Jones, Bryn Fedwen, le anrhydeddus yn yr arholiad ysgrifenedig i rai o 11-15 oed ar waith Ann Griffiths. Daeth y plant a fu'n cystadlu yn yr arholiadau llafar i gyd yn fuddugol hefyd.

TRIP I STRATFORD ON AVON

Er gwaethaf y tywydd anffafriol bu i aelodau Undeb y Mamau, aelodau yr Eglwys a'u cyfeillion fwynhau y wibdaith i gartref yr enwog William Shakespeare. Cafwyd taith bleserus iawn.

FFAIR FEDI

Cynhaliwyd Pwyllgor yn y Rheithordy yn ddiweddar i baratoi ar gyfer cynnal Ffair Fedi. Bydd manylion llawnach am hyn yn y rhifyn nesaf.

LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Mrs. Roberta Griffith, Bodelwy, am lwyddo mewn arholiad cerdd yn Lerpwl. Enillodd ddiploma ALCM am ganu piano.

Y BAND

Ar hyn o bryd mae'r band yn brysur iawn. Bu'n cymeryd rhan yng Ngharnifal Llanrug, a'r Sadwrn, Mehefin 19, yr oedd yn Ysgol Pendalar, Caernarfon.

COFNODION GWERTHFAWR

In ddiweddar rhoddodd Mr. W.A. Jones, Y Dalar Deg, gyfres (o eiddo ei dad, Mr. G.W. Jones, Llundain) o gofnodion gweithgareddau Cymdeithas Anrhydeddus y Cymrodorion, a chyfres o'r Cymrodwr i Archifydd Cyngor Sir Gwynedd. Yn ddiweddarach, rhoddodd Mrs. Jones ohebiaeth a fu rhwng ei thad, Mr. Tom Jones, Tyddyn Rhuddallt, a Major Geronwy Owen, A.S. a Swyddfa'r Arglwydd Siambarlen ynglŷn â "sensro" dramâu Cymraeg a chael person rhugl ei Gymraeg i wneud y gwaith. Ychydig ar ôl hyn penodwyd Cynan. Deëllir y bydd hawl gan ymchwilwyr dilys i weld y cofnodion.

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod yn y Sefydliad Coffa, nos Fawrth, 8fed o Fehefin, gyda Mrs. M. Evans, Lloc yn y gadair. Rhodod arddangosiad 'Trefnu BLodau' gan Miss Sidi Roberts, Caernarfon, a diolchwyd iddi gan Mrs. Jennie C. Williams, Bodfair. Y gwystai oedd Mrs. Linda Jones, Iona Jones, Gwenda Roberts, Ann Evans. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Anne Jones. Bydd y daith i Sir Fôn am 6 o'r gloch, fin nos Fawrth cyntaf o Orffennaf ac nid yr ail, sef y 6ed o Orffennaf. Enwau i'w rhoi i Mrs. Ann Lloyd Griffith, Hawddamor, neu Mrs. Margaret Jones, Dwyros.

YMUNO Â'R BUSNES

Mae Alwyn, sy'n trin gwalltau, yn cyhoeddi y bydd ei ferch,

Elaine, yn ymuno â'r busnes o Fehefin 29ain. Croeso i gwsmeriaid hen a newydd.

CYMDEITHAS CHWIORYDD

MC PONTRHYTHALLT

Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod dan lywyddiaeth Mrs. Nesta Pritchard, Glanfa, a chymerwyd y rhan arweiniol gan Mrs. E.W. Thomas, Dolwar. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mrs. W.O. Roberts, Llys Eiddon, am waith a bywyd Miss Gladys Aylward. Hefyd cafwyd adroddiad o weithgareddau Sasiwn y Merched a gynhaliwyd yn Lerpwl gan Mrs. Mary L. Williams, Llys Awen. Anfonwyd ein dymuniadau cynnes at y chwiorydd sy'n wael gartref ac yn yr ysbyty. Rhodod y te gan Mrs. Morgan Jones, Bronallt. Diolchwyd iddynt gan Mrs. J. L. Williams, Bod Fair.

YN YR YSBYTY

Da deall fod Mrs. Williams, Tremallt, yn gwella yn Ysbyty Eryri ar ol torri'i chlun a'i choes yn ddiweddar. Peidied neb â phoeni am Mr. Williams gartref ei hunan bach. Mae o'n manijio'n olreit medden nhw ar ddanteithion y rhewgell! Ond brysiwch gartref Mrs. Williams cyn iddo fwyta popeth.

LLONGYFARCHIADAU

Penblwydd hapus i Mrs. Margaret Thomas, y Garth, ar gyrraedd 91 ar Orffennaf y 4ydd.

DYMUNIADAU

Gyrrwn ddymuniadau gorau'r ardal i'r Parch. W.O. Roberts, a'n gobeithion am adferiad buan.

DIOLCHIADAU

Dymuna Mrs. Eirwen Rowlands, Llys Forgan, ddiolch i'r holl bobl fu mor garedig wrthi tra bu'n wael. Telir teyrnged i'r meddygon a'r nyrsus lleol. Diolchir i'r ffrindiau fu'n ymweld â hi ac am y llw cardiau a dymuniadau da oddi wrth drigolion y cylch.



CWM-Y-GLO



Plant Ysgol Gynradd Cwm-y-glo a gymerodd ran yng Nghyngerdd Eco'r Wyddfa.

CYFARFOD CYHOEDDUS

Bu Mr. Dafydd Wigley, yr Aelod Seneddol, ynghyd a Chynghorwyr Gwynedd ac Arfon mewn cyfarfod cyhoeddus yng Nghwm-y-glo ar Fehefin 11eg. Cadeiriwyd gan Mr. T. Evans, Lloc, cadeirydd Cyngor Cymuned Llanrug, gyda Mr. Gwyndaf Jones, clerwr y Gymuned yn cofnodi. Daeth nifer dda yno, a bu trafod ar amryw o faterion o bwys i'r pentref, yn cynnwys yr anfodlonrwydd nad oes cyfyngiad ar gyflymder trafnidiaeth ar y ffordd osgoi newydd a phryder nad oes croesfan arni. Teimlid hefyd fod diffyg neuadd o unrhyw fath yn cyfyngu ar weithgareddau hanfodol i barhad a diwylliant y pentref. Trafodwyd hefyd garthffosiaeth, golau cyhoeddus anfodddhaol a thai a ffyrdd annigonol.

Cafwyd ambell awgrym a llygedyn o obaith ynghylch rhai pethau ond gwnaed y sylwadaeth lawer gwaith "mai diwedd y gân yw'r geiniog". Derbyniwn fod hwn yn gyfnod anodd ond tybed a welir Cwm-y-glo rhywdro'n derbyn ambell fraint a gymerir yn ganiatol gan bentrefi mwy ffortunos?

CYDYMDEIMLAD

Ym marwolaeth Mr. John Rowland Davies, 20 Dôl Afon, collwyd un arall o hen hogiau'r Cwm. Yn weddw ers chwe mlynedd, gedy ferch, Beti, a mab, John, a gyrhaeddodd adref o Awstralia ychydig oriau cyn colli ei dad. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

CROESO ADREF

Da gennym groesawu Dr. a Mrs. Brian Williams, Fron Gader, a'u dau fab bychan ar wyliau i'n plith. Trigant yn Ottawa, Ontario

Ile mae Brian yn ffisegydd ymchwil i Gyngor Ymchwil Genedlaethol Canada yn y maes atomig. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Cwm-y-glo, Ysgol Brynrefail a Choleg y Brifysgol Bangor. Bu am gyfnod yn aelod o Gymdeithas Ymchwil ym Mhrifysgol Witswaterstand, Johannesburg, De Affrig.

LLONGYFARCHIADAU

Fe garem longyfarch plant Ysgol Sul Sant Gabriel am ennill lleoedd anrhydeddus yng Ngwyl Gorawl Eryri. Gweler rhestr y rhai buddugol yn yr arholiadau llafar mewn colofn arall. Daeth y rhai canlynol yn llwyddiannus yn yr arholiad ysgrifenedig i rai o 11 i 15 oed, Yvonne Hughes, Owen Wyn Sinclair a Roland Sinclair.

TRIP I STRATFORD

Aeth aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion ar wibdaith i Stratford on Avon yn ddiweddar a threuliodd diwrnod difyr yn y dref ddiddorol honno er gwaethaf y glaw.

DAMWAIN

Drwg oedd gennym ddeall am y ddamwain flin a ddaeth i ran Miss Sioned Roberts, Bod Gwynedd, yn ddiweddar ond da yw deall ei bod yn gwella'n foddhaol. Da yw gweld Mr. J.O. Roberts, Ty'n ffridd yn gwella ar ôl cyfnod o waeledd. Brysiwch wella yw dymuniad ei ffrindiau i Mr. Huw Pritchard, Bryn Gwynedd, sydd heb fod yn rhy dda ei iechyd yn ddiweddar.

ECO'R WYDDFA

Un braf yw ein papur bro, - a'r heniaith Sydd yn raenus ynddo; Felly hir oes a chroeso O fis i fis. Dyma fo!

Tony Elliot.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES - TEISENNAU BLASUS!

(Rydym yn arbenigo mewn teisenau Priodas)

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL



NEU UNRHYW ACHLYSUR
ARALL BYTHGOFIADWY

AM LUNIAU LLIW NEU
DDU A GWYN

DENNIS A. JONES

FFOTOGRAFFYDD

Denfor, 1 Stad Eryri
Bethel

Ffon Port Dinorwig 711

AR WERTH

2 'storage heater'. Cyflwr rhag-
orol. Eisiau eu lle. *Llys Forgan,*
Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

Pâr o dapiau i uned sinc. £2.
Fel newydd. *Ffôn: Caernarfon*
3719.

Cwcer Belling. Mewn oed ond yn
gweithio'n berffaith! £2. *Ffôn:*
Caernarfon 3719.

Restmoor Pram. (hefo tre siopio)
Navy/Turquoise, mewn cyflwr
ardderchog. £20 o.n.o. 47 *Dôl*
Elidir, Llanberis.

Carrycot ac olwynion dyflwydd
oed, mewn cyflwr da. *Ffôn:*
Llanberis 220.

Training shoes — lledr, maint 6.
Newydd sbon. £5. *G. Huws,*
Gwyndy, Rhiwen, Deiniolen.

Beic Modur — Suzuki 1973 (L)
— 4,818 milltir. £150. *Ffôn:*
Bangor 53863 (Williams).

YN EISIAU

Siglen (Swing) mewn cyflwr da.
Mrs. Parry, 3 Bryn Coch Terr,
Llanrug.

Carmen heated rollers mewn
cyflwr da. *Bernadette Rogers,*
Stryd Newton, Llanberis.

Beic Dyn (dim beic rasio) *H. Bara,*
Llanberis.

Piano mewn cyflwr da. *Ffôn:*
Caernarfon 4782.

AR DRAWS

1. Eco'r Wyddfa (5.5.2.)
6. Trigain munud (3)
7. Llethr (3)
8. Plygu (7)
10. Llestr (5)
12. Trannoeth i heddiw (5)
14. Dyn Priod (3)
16. Cocos (4)
19. Gwalch (4)
20. Hwylus (7)
21. Twll mewn craig (4)
23. Tu faes (4)
26. Maes (3)
28. Dechrau tyfu (5)
29. Haeam ar droed anifail (5)
32. Bywyd (7)
33. Gwisg i'r pen (3)
34. Ymyl (3)
35. Cwestiwn mab i ferch i fynd
am dro (1.3.2.4.2.)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren: ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh;
th.

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i
law. **Dyddiad Cau : Mercher, Gorffennaf 21ain.**

Anfoner y cynigion i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

ATEBION RHIF 4

AR DRAWS: (1) Plaid. (5) Gawn. (7) Radio. (8) Iselu. (9) Rwber.
(10) Dinas. (11) Gat. (12) Ymddiddan. (16) Naw. (17) Ers. (19) Ethol-
iad. (24) Anwir. (29) Gelyn. (30) Chwain.

I LAWR: (1) Plisgyn. (2) Abertawe. (3) Drudwy. (4) Adenydd. (5)
Gorsedd. (6) Nerthu. (13) Mil. (14) Ina. (15) Negeseua. (18) stolion.
(20) Oedran. (21) Ionawr. (22) Diserch. (23) Craig.

Enillydd Croesair Rhif 4 : Elfed P. Morris, 4 Rhes Efrog, Llanberis.

Dyddiadur y Mis

Gorffennaf 2, dydd Gwener. Clwb
yr Henoed, Llanberis yn cyfarfod
yn y Ganolfan.

Gorffennaf 3, dydd Sadwrn. Trip
Ysgolion Sul Llanberis i'r Rhyl.
Trip Ysgolion Sul Bethel i'r Rhyl.
Trip Ysgol Sul Eglwys MC Bryn-
refail i Landudno a'r Rhyl.
Pwyllgor Merched Arfon o Blaid
Cymru yn cynnal stondin bwyd
a chacennau ar Faes Caernarfon
o 10 o'r gloch ymlaen.

Gorffennaf 4-10. Wythnos Gar-
nifal Seindorf Arian Deiniolen.
Gorffennaf 4, nos Sul. Cymanfa
Ganu yn Festri Ebenezer, Dein-
iolen am 8 o'r gloch.

Gorffennaf 5, dydd Llun. Clwb
Methedig Eryri yn cyfarfod yn y
Ganolfan, Llanberis am 2.
Gem Bel Droed dan nawdd Pwyll-
gor Carnifal Deiniolen ar Gae
Garnedd am 7.15.

Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb
Pel Droed Llanberis yn Y Ganol-
fan am 7.30.

Gorffennaf 6, dydd Mawrth. Clwb
yr Henoed, Deiniolen yn cyfarfod.
Gwibdaith Merched y Wawr, Llan-
rug i Ynys Môn.

Disco dan nawdd Carnifal Dein-
iolen yn Ysgol Dinorwig am 7.30
Ordeinio blaenoriaid newydd o'r
Henaduriaeth yn Nhalysarn am 7.

Gorffennaf 7, nos Fercher.
Cangen Bethel o Blaid Cymru yn
cyfarfod yn yr Ysgol.

I LAWR

1. Swynol (7)
2. Corff Nefol (6)
3. O bwysau bach (6)
4. Mynwes (7)
5. Llaid (3)
9. Rhif (2)
11. Gorffen (7)
13. Mynegi (5)
15. "Mi sy'n fachgen....ffôl (5)
17. Gafr ifanc (3)
18. Metel gwerthfawr (3)
22. Offerynnnydd (7)
24. Cynyddu (7)
25. Rhoi bri (6)
27. 'Hen....bach Llanber (6)
30. Pryd bwyd (2)
31. Graean (3)

Bingo dan nawdd Pwyllgor Cae
Chwarae Coed y Ddôl, Llanberis
yn y Ganolfan am 7.30.

Cyngerdd dan nawdd Pwyllgor
Carnifal Deiniolen yng Nghapel
Disgwylfa am 7.30.

Gorffennaf 8, nos Iau. Cangen
Plaid Cymru Llanberis yn cyfar-
fod yn y Ganolfan am 7.30.

Clwb Blodau'r Grug, Llanrug yn
cyfarfod yng nghwmni Mr. Will-
iam Jones (Wil Parsal), Trefor.

Mabolgampau dan nawdd Pwyll-
gor Carnifal Deiniolen yng Nghae
Garnedd am 6.30.

Gorffennaf 9-17. Wythnos Gar-
nifal Llanberis.

Gorffennaf 9, nos Wener. Noson
Goffi dan nawdd Pwyllgor Car-
nifal Deiniolen yn Ystafell y Sein-
dorf am 7 o'r gloch.

Gyrfa Chwist yn Neuadd yr
Eglwys, Penisarwaun am 7.30.

Noson Goffi dan nawdd Merched
y Wawr, Bethel yn y Neuadd am
6.30.

Disco dan nawdd Pwyllgor Car-
nifal Llanberis yn y Ganolfan am
8 o'r gloch.

Gorffennaf 10, dydd Sadwrn.
Diwrnod Carnifal Deiniolen. Yr
orymdaith i gychwyn o'r Llyfr-
gell am 1.30.

Cinio Carnifal Deiniolen yn y
Woodlands Hall, Edern.

Gorffennaf 11, nos Sul. Noson
o Gân yng Nghapel Coch, Llan-
beris am 8 o'r gloch yng nghwmni
Hogia'r Ddwylan.

Gorffennaf 12, dydd Llun. Clwb
Methedig Eryri yn cyfarfod yn y
Ganolfan, Llanberis am 2.
Gyrfa Chwist dan nawdd Pwyll-
gor Carnifal Llanberis yn y Gan-
olfan am 7.30.

Gorffennaf 13, nos Fawrth. Bingo
dan nawdd Pwyllgor Carnifal
Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.

Gorffennaf 14, nos Fercher. Taith
Gerdded Eglwys Brynrefail, Dein-
iolen, Dinorwig a Phenisarwaun er
budd Cymdeithas y Beiblau a
Chymorth Cristnogol.

Gemau terfynol dartiau yng
Ngwesty'r Castell, Llanberis am 8.

Gorffennaf 15, nos Iau. Gemau
Giamocs yn Ddôl y Goeden,
Llanberis am 6.45

Gorffennaf 16, dydd Gwener.
Clwb yr Henoed, Llanberis.

Sefydliad y Merched, Penisarwaun
yn mynd ar wibdaith i Ynys Môn.
Taith Gerdded dan nawdd Cangen
Plaid Cymru, Deiniolen.

Mabolgampau Carnifal Llanberis
yn Ddôl y Goeden am 5.45.

Gorffennaf 17, dydd Sadwrn.
Taith Gerdded dan nawdd Pwyll-
gor Eisteddfod Gadeiriol Bethel.

Gorffennaf 18, bore Sul. Darll-
ediad BBC o Oedfa'r Bore o Egl-
wys Disgwylfa, Deiniolen.

Gorffennaf 19, dydd Llun. Clwb
Methedig Eryri yn cyfarfod.

Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb
Pêl Droed, Llanberis yn y Gan-
olfan am 7.30.

Gorffennaf 20, dydd Mawrth.
Clwb yr Henoed, Deiniolen.

Gorffennaf 21, dydd Mercher.
Gwibdaith Clwb Blodau'r Grug,
Llanrug i wlad Llŷn.

Bingo dan nawdd Pwyllgor Cae
Chwarae Coed y Ddôl yng Nghan-
olfan Llanberis am 7.30.

Gorffennaf 23, nos Wener. Gyrfa
Chwist yn Neuadd yr Eglwys,
Penisarwaun am 7.30.

Gorffennaf 26, dydd Llun. Clwb
Methedig Eryri yn cyfarfod.

Gyrfa Chwist dan nawdd y St.
John's yn y Ganolfan, Llanberis
am 7.30.


Gorffennaf 27, dydd Mawrth.
Cyfarfod Misol o Sefydliad y
Merched, Penisarwaun.

Cyfarfod misol o Glwb yr Heul-
wen, Penisarwaun.

Gorffennaf 28, dydd Mercher.
Undeb y Merched, Penisarwaun.
Bingo dan nawdd Cangen Plaid
Lafur Llanberis yn y Ganol-
fan am 7.30.

Gorffennaf 29, nos Iau. Sefydliad
y Merched, Llanberis yn cyfarfod
yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.

Gorffennaf 30, dydd Gwener.
Clwb yr Henoed, Llanberis.



CHWARAEON

Belt Du i Wyn

Er nad oes natur gas yn perthyn i Wyn Hughes, fuaswn i ddim yn cymryd y byd am ei dynnu i 'mhen a chodi twrw hefo fo. Dyma'r unig berson yn ardal Eco'r Wyddfa sy'n dal y belt du mewn Judo.

Y grefft o hunan-amddiffyniad yw Judo, wrth gwrs, a ddatblygodd dros y canrifoedd yng ngwledydd y Dwyrain Pell. Hefo'r Sineaid a'r Siapanaid y'i cysylltid hyd yn weddol ddiweddar, ond bellach daeth yn un o'r chwaraeon dan do mwyaf poblogaidd ym Mhrydain. Ymddengys i'r gwyliwr yn eithaf tebyg i ymaflyd codwm neu ar brydiau i'r Kung Fu sydd i'w weld mewn rhai ffilmiau teledu, ond arbenigrwydd Judo yw ei bwrpas o amddiffyn yn unig, a hynny heb ddefnyddio yr un arf ond y dwylo a'r traed. Does dim taro na chicio yn perthyn i Judo, a gorchfygir y gwrthwynebydd drwy wneud iddo golli ei gydbwysedd a syrthio i'r llawr.

Un o Dalybont, Bangor yw Wyn yn wreiddiol, ond yn byw bellach yng Ngwynndy, Rhiwen, Deiniolen. Mae'n beldroediwr pur dda a bu'n chwarae i Fynydd Llandegai, Llechid Celts a Bethesda cyn i rygbi fynd i'w waed. Cafodd dymhorau llwyddiannus yn nhîm Bangor.

Yn y flwyddyn 1968, tra'n byw yn Bletchley y dechreuodd ymddiddori mewn judo, ac yn fuan iawn derbyniodd y beltiau gwyn, dau oren, dau wyrdd, dau las a dau frown. Ychydig wythnosau'n ôl aeth i Fanceinion a bu'n llwyddiannus mewn sawl ymaflyd yno ac enillodd iddo'i hun ac i'r ardal yr anrhydedd prin o felt du. Hwn yw'r dosbarth uchaf mewn judo, ac y mae saith gradd, neu Dan i

anelu atynt yn y dosbarth.

Mae Wyn yn aelod o'r B.J.A. (British Judo Association) ac mae'n dal y fedal bres o ben-campwriaeth Genedlaethol Cymru i rai a'u pwysau dros 75 kilo (11st 11 pwys). Ei uchelgais yw ennill y fedal aur a chael ei ddewis i'r tîm cenedlaethol. Mae'n aelod o Glwb Judo Bangor.

Mae'n ymarfer yn gyson iawn ar y pwysau, a dim ond iddo barhau i wneud hyn, ac i Gwen ei wraig ei fwydo'n iawn, ni allaf ond proffwydo llwyddiant iddo. Mae ei agwedd tuag at y gêm (ac mae'n pwysleisio mai "sport" yw Judo) ac at fywyd yn gyffredinol yn gwbl iach.

Pob dymuniad da yn y dyfodol, Wyn, y mae'r ardal yn falch ohonot.

ATHLETAU

Bu amryw o blant Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus yng Nghyfarfod Athletau Gwynedd yn Nhywyn ar y 19eg o'r mis. Enillwyr Arfon, Môn a Meirionnydd oedd yn cystadlu yno, a'r safon felly yn bur uchel, gyda'r enillwyr yn mynd ymlaen i gynrychioli Gwynedd yn y Cyfarfod Cenedlaethol yn Abertawe.

Alyson Jones, o Benisarwaun, sydd ar ei blwyddyn gyntaf yn yr ysgol, wnaeth orau, gan ennill ar daflu'r ddisgen ac yn y gystadleuaeth naid hir, yn wir, y mae wedi gosod record newydd yn y gystadleuaeth yma. Yn anffodus fydd hi ddim yn cystadlu yn Abertawe gan nad yw'n ddigon hen.

Canlyniadau nodedig eraill oedd Geurwen Griffiths yn drydydd am daflu'r pwysau a Julie Leatherbarrow yn bedwerydd yn yr un gystadleuaeth, Debbie Appleton yn drydydd am daflu'r waywffon, Stella Sharp yn ail am daflu'r waywffon a Susan Williams yn drydydd yn y naid hir.

Daeth Gareth Williams yn ail yn y ras 400 metr, Bryn Hughes yn ail yn y naid driphlyg ac Owen Sinclair yn bedwerydd mewn cystadleuaeth arall ar y naid driphlyg.

Mae fy nioch yn fawr i Lal Jones o Lanberis ac i Dafydd Arfon Jones o Lanrug am adroddiadau llawn o weithgareddau'r ddau glwb yn ystod y tymor.

NOFWYR ADDAWOL

Enillodd Toby Manning sy'n ddeg oed ac Yvonne Hughes, sy'n ddeuddeg, y ddau o Gwm-y-glo, fedal aur Cymdeithas Nofio Amatur Prydain Fawr. Maent eisoes wedi derbyn medalau pres ac arian, a Toby wedi derbyn gwobr am nofio milltir ac Yvonne hanner milltir.



PWY SY'N COFIO?

Dyma dîm Peldroed Clwt-y-bont 1926, hanner can mlynedd yn ôl. Pwy all enwi pawb sydd yn y llun? Faint sy'n fyw o hyd? Faint sy'n byw yn yr ardal heddiw?

Mae'r enwau ar dudalen y plant, ond peidiwch ag edrych eto, ceisiwch gofio.

PELDROED

Dyma hi'n haf unwaith eto, y tymor chwarae criced a thennis, neu i fynd i lan y môr ar bnawn Sadwrn, a chyfnod byr o seibiant i'r timau peldroed. Da o beth felly fuasai taflu rhyw gipolwg dros y tymor diwethaf o safbwynt Llanberis a Lanrug.



SGIO

Bu tîm o'r Ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Ysgolion Cymru i sgiwyr ym Mhlas y Brenin yn ystod y mis.

Yn cynrychioli'r ysgol yr oedd Chris ac Ashley Wager, David Brailford a Chris Lloyd. Daethant yn bumed yn y gystadleuaeth.

Fe'u hyfforddir ym mhwl nofio Bangor lle mae Yvonne yn aelod o'r dosbarth achub bywyd.

'Rwy'n deall hefyd fod Alwyn Lloyd Hughes, Arwel Hughes ac Euryr Williams hefyd wedi ennill y fedal aur. Mae'r tri yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail.

Llongyfarchiadau i chi i gyd a daliwch ati.

Llanberis fu'r mwyat llwyddiannus o'r ddau y tymor hwn gan orffen yn drydydd yn y gynghrair ac ennill dau gwpan, sef yr Alves a'r Deanfield. Gan mai dyma'r ddau gyntaf i ddod i dîm y pentref ers 1971 mae'n amlwg fod gwelliant mawr wedi bod yn safon y chwarae. Sgoriwyd 94 gôl ganddynt, — Barry Pitts ei hun yn cael 48 ond gadawyd 51 gôl i mewn. Mae'n weddol amlwg felly fod angen cryfhau'r amddiffynfa erbyn y tymor nesaf, ac efallai hefyd ychydig o'r chwaraewyr canol y cae gan fod tynnu pwysau oddi ar y cefn yn rhan o'u dyletswyddau hwythau.

Y mae nifer o'r hogiau wedi arwyddo eto am y tymor nesaf, ac mae aelodau'r pwyllgor yn ffyddiog fod cnewyllyn tîm da i adeiladu arno. Nid oes rheolwr wedi ei benodi eto, ond pwy bynnag y bo, pob lwc iddo.

Un fydd ddim yn rhoi'r crys melyn a du amdano y flwyddyn nesaf fydd Arwyn Roberts. Mae Arwyn wedi hongian ei 'sgidiau ar ol 15 mlynedd o wasanaeth i'r Clwb (sawl pâr ddefnyddiodd o yn y cyfnod hwnnw tybed?) Anrhegwyd ef â chwpan gan y Clwb, un arall at y llu a enillodd ar y cae, ac mae diolch y pentref yn ddifffuant iddo.

Tymor siomedig oedd hwn i Lanrug, gan orffen tua chanol y Gynghrair a cholli yn rownd gyn-derfynol Cwpan Alves ar gae Nantlle Vale yn erbyn y Coleg Normal.

'Roedd chwarae rhai o'r bechgyn ar brydiau o safon uchel iawn, mae Hefin Pritchard yn y llinell flaen a Dafydd Horman yn yr amddiffynfa yn dod i'r cof, ond mae tîm llwyddiannus yn mynnu cysondeb gan bob aelod, a'r gallu i wau gyda'i gilydd yn uned yn hanfodol. Trueni fod Alan Vincent wedi colli gemau ola'r tymor ar ôl ei anafu. 'Roedd hwn yn gawr yn yr amddiffynfa. O edrych yn ôl dros y tymor, mae'n debyg mai Nigel Hardwick, y golgeidwad, oedd y chwaraewr mwyaf cyson a'r prysuraf yn y tîm, ac nid oes angen dweud fawr mwy am y tîm yn gyffredinol ar ôl dod i'r canlyniad hwnnw.

Yn y cinio blynyddol, anrhegwyd Dafydd Horman am wasanaeth o bum mlynedd fel chwaraewr a Griff Orritt am ei wasanaeth i'r clwb.

Deallaf gan aelod o'r pwyllgor fod pedwar neu bump o fechgyn newydd wedi arwyddo erbyn y tymor nesaf, a bod Dafydd Arfon Jones wedi ymddiswyddo fel rheolwr y clwb. John Arfon (Telly) Jones fydd yn cymryd ei le a dymunir bob llwyddiant iddo ac i'w dim newydd.

Ymddengys bellach fod y drafferth gyda thraeniau y cae wedi ei oresgyn. Ni fydd unrhyw nam ar yr wyneb y tymor nesaf, a bydd y gwaith o adeiladu cysgodfa y tu ôl i'r gol ger ffordd Llanberis yn dechrau'n fuan.



Bydd Eithin Duon gyda'r caeau gorau, os nad y gorau yn y Gynghrair felly y tymor nesaf.

Hei lwc y bydd tîm yno a fydd yn ei haeddu.

HEBOG

Bach

Cyhoeddir y dudalen hon gyda chydweithrediad Gwasg Gwynedd, cyhoeddwy'r HEBOG, y comic misol.



Plant Ysgol Gynradd Bethel y tu allan i'r Deml Heddwch yn yr Hague

NOFWYR ADDAWOL

(Gweler y dudalen ôl)



Toby Manning



Yvonne Hughes

SIBRYDION O'R YSGOLION

CYMHARU YSGOL BRYNREFAIL AG YSGOL TAVERNEY YN FFRAIN

gan Anwen Jones, Meillionydd, Penisarwaun

Yn ystod gwyliau'r Pasg cefais y fraint o fynd i aros gyda fy ffrind, Hélène Py (chwaer Chantal Py sy'n fyfyrwraig Ffrangeg yn Ysgol Brynrefail) i Taverney ger Paris yn Ffrainc.

'Roedd Hélène eisoes wedi bod yn aros gyda mi ym Meillionydd am bythefnos fis Mawrth. Gan nad oedd ein gwyliau ysgol ni yr un pryd, cefais gyfle i fynychu'r ysgol yn Taverney, a'r cyfle i gymharu'r ysgol honno ag Ysgol Brynrefail.

DISGYBLAETH

Tipyn o ddychryn oedd fy argraff gyntaf o'r ysgol a hynny oherwydd diffyg trefn a disgyblaeth. Nid oedd gwisg ysgol ffurfiol, a gwisgai'r disgyblion beth a fynnent. Yr oedd yr ysgol yn newydd, oddeutu dwyflwydd oed a thros fil o blant rhwng 14 ac 18 oed ynddi. Yn y dosbarth yr oedd gan yr athrawon ddisgyblaeth dda.

YSMYGU

Cai'r disgyblion dros bymtheg oed ysmegu, — hyd yn oed ysmegu yn y dosbarth, a chan nad oedd blychau llwch sigarennau yn unman, yr oedd y llwch ym mhobman ar y llawr.

GWISG

Buan iawn y deuthum i sylweddoli fod yr ysgol hon yn fwy fel coleg nag ysgol. Yr oedd y plant yn hŷn a chan eu bod yn cael gwisgo unrhyw wisg nid oedd yn hawdd eu gwahaniaethu oddi wrth yr athrawon. Wrth gymharu'r ddwy ysgol, teimlaf fod gwisg ysgol orfodol yn llawer gwell gan fod pob disgybl yn "gyfartal" ac hefyd yn creu rhyw fath o 'fur' rhwng y disgyblion a'r athrawon. Mae hyn yn fantais oherwydd ei fod yn dangos parch ac mai'r disgybl yn y pen draw sydd ar ei ennill.

ORIAU YSGOL

Yr oedd oriau ysgol yn Taverney yn wahanol iawn i oriau o Ysgol Brynrefail.

Ysgol Brynrefail. 'Roedd ysgol i bawb bob diwrnod o'r wythnos ond prynhawn Mercher a phryn-hawn Sadwrn. Dibynna'r amserlen ar y pynciau a ddilynid. Dyma amserlen Hélène:

Llun 8.30-3.30. Mawrth 9.30 - 6.15. Mercher 8.30-10.30. Iau 8.30-5.30. Gwener 2.15-5.15. Sadwrn 10.30-12.30.

Yn ystod egwyl y bore arferai amryw o'r disgyblion ymwthio i mewn i ryw ystafell fechan i wrando ar recordiau, chwarae cardiau ac ysmegu. Arhosai'r gweddill yn y dosbarth neu yn y neuadd.

TRAFNIDIAETH

Gwahaniaeth mawr arall rhwng y ddwy ysgol oedd fod bron pawb yn Taverney yn teithio i'r ysgol ar gefn beic neu foped. Cefais sioc pan gyrhaeddais yr ysgol am y tro cyntaf a gweld iard yr ysgol yn llawn o feiciau a mopeds o bob maint, lliw a llun.

HOFFI'R CYFARWYDD

Hoffais y bythefnos yn yr ysgol yn fawr, ac wrth gwrs, cefais groeso mawr gan Hélène a'i theulu, ond erbyn y diwedd yr oeddwn yn dechrau diflasu ar yr ysgol. Ni allwn yn fy myw ddychmygu fy hun yn aros yn yr ysgol am byth. 'Roedd y Ffrancwyr eu hunain yn byw bywyd holloi wahanol i ni'r Cymry. Felly mae'n debyg fod hynny'n gyfrifol am y gwahaniaeth rhwng y ddwy ysgol. Yn Ysgol Brynrefail mae pawb fel un teulu mawr. Mae'r ddisgyblaeth yn fwy llym, ac mae llawer gwell trefn arni. 'Rwy'n hynod o falch fy mod wedi cael y profiad o fynychu ysgol mewn gwlad arall a chael cymharu'r ddwy. Coeliwch erney yn wahanol iawn i oriau o Ysgol Brynrefail.



Dyma rai o blant Ysgol Brynrefail a wnaeth luniau gogyfer â'r "Arddangosfa Cymorth Cristnogol" yn Eisteddfod yr Urdd, Porthaethwy, ddechrau'r mis hwn. Yn y llun hefyd mae rhai o'r lluniau a wnaeth y plant.

O'r chwith i'r dde: Mr. Evie Roberts (Athro Celf yr Ysgol); Berwyn Owen; Michael Lovatt; Kelvin Fleming; Michael John Williams; Ian Williams; Arwel Thomas; Delyth Williams.

O GYMRU I'R ISELDIROEDD

Yng nghwmni Mr. a Mrs. W.M. Roberts, Mr. a Mrs. I. L. Jones, Mr. Ken Huws, Miss M.D. Buckley a Mrs. M. Hobart, cychwynnodd rhai o blant ysgolion cynradd Bethel, Llanrug, Hiracl a Glanadda am wythnos o wyliau addysgiadol i'r Iseldiroedd dydd Sadwrn, Mai 29ain hyd ddydd Gwener, Mehefin 4ydd.

Cawsant amser i'w gofio yn ymweld â'r wlad hynod o ddiddorol yma.

Dechreuodd y fordaith o St. George's Dock, Hull a chawsant siwrnai hapus ar y llong ac yna ar y bws a oedd i'w dwyn i'r gwesty yn Noordwijk.

Yn ystod yr wythnos cawsant gyfle i ymweld â'r "Aalsmeer

Flower Auction", Gorsaf Bwmpio Curquis, Gwaith Clocciau Bovenkerke, Gwaith Diamwntiau Amsterdam, trip ar long i Ynys Marken. Cawsant gyfle hefyd i siopa yn yr Hague ac ymweld â'r dref fodel Madurodam a Delft, yna dractic peth o ramant Rotterdam.

Tydi plant heddiw'n lwcus, deudwch?



Plant Ysgol Llanrug a aeth ar y trip i'r Iseldiroedd

Dyma'r rhai sy'n ymddangos yn y llun o dîm peldroed Clwt-y-bont 1926 ar y dudalen ôl. O'r chwith i'r dde yn sefyll: Emlyn Griffiths, John Lewis, Tom Roberts, Bertie Rowlinson, Evan Pritchard, Dei Davies, Arthur Rees, Elfed Morris a John Thomas. Yn eistedd: Owie Jones, Joseph Thomas, Tom Williams (Plismon), Belmont Owen, William Wyn, Wil Sam, Bob Hughes, Huw Morris, Bob Hughes, Huw Morris (Duke).

Mae'n ddrwg gen i am y llysenwau, ond dyma'r enwau ddaeth i law. Beth am gael yr enwau iawn a thipyn o'u hanes gan rai ohonoch? Gyrrwch at Dafydd Evans yn 5 Bryneglwys, Penisarwaun.

ARCHEB BLWYDDYN

ECO'R WYDDFA

Drwy'r post (12 rhifyn)

£2

Enw _____

Cyfeiriad _____

Anfoner at y Trefnydd
Gwerthiant : Selwyn Williams,
Cartref, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug.